

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 501 • Gorffennaf 2019 • 50c

Hwyl y Bwrlwm Haf

Er i'r Bwrlwm Haf gael ei symud o'r dydd Sadwrn i'r dydd Sul (Gorffennaf 7fed), a hynny ar fyr rybudd o achos y tywydd, cafwyd ymateb gwych gan aelodau'r timau gan wneud y digwyddiad yn un llwyddiannus eto eleni. Roedd yr haul yn gwenu a daeth nifer dda ynghyd i gymryd rhan ac i wyllo a chefnogi.

Tîm Ogwen Isaf enillodd y darian y tro yma, o dan gapteniaeth Paula Williams, a hynny efo cyfanswm o 64 o bwyntiau - roedden nhw'n amlwg yn dîm cryf ac yn llawn brwdfrydedd. Llongyfarchiadau calonnog iddyn nhw i gyd, a diolch yn fawr i aelodau'r timau eraill a'u capteiniaid am gyfrannu mor eiddgar. Braf gweld cymaint o deuluoedd yr ardal yn dod at ei gilydd fel hyn i gael pnawn o gystadlu hwyliog - o'r rhai lleiaf i'r rhai hŷn!

Yn ôl y drefn, roedd gwahanol ardaloedd y dyffryn wedi

codi timau ar gyfer yr ornest - Rachub, Llan a Thalybont (Capten; Michael Williams); Gerlan a Braichmelyn (Capten: Mari Emlyn Wyn); Ogwen Uchaf (Capten: Donna Watts); Ogwen Isaf (Capten: Paula Williams); Tregarth, Mynydd a Rhiwlas (Capten; Anwen Morgan).

Ymdrech wirfoddol yw'r cwbl, ac ni chodir tâl mynediad, a hyfryd yw gweld yr ysbryd cymunedol ar waith wrth i bawb gyd-dynnu i wneud yr achlysur yn un llawn sbort a'r cystadlu'n deg yn yr ysbryd gorau. Fel ag o'r blaen, y ddwy gystadleuaeth fwyaf poblogaidd, yn cynhyrfu'r cystadleuwyr a'r cefnogwyr fel ei gilydd, oedd tynnu'r rhaff a'r ymladd gobenyddiau uwchben y pwll dŵr.

Sefydlwyd y Bwrlwm Haf yn wreiddiol yn yr 1980au ond daeth i ben yn 1986. Y llynedd penderfynwyd ei atgyfodi ar awgrym y Cyng. Rheinallt Puw, ac mae ymateb yr ardal



wedi bod yn hynod o dda y ddau dro iddo gael ei gynnal. Mae'n siŵr o fynd o nerth i nerth.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio'r cae a chael benthg cyfarpar; i'r Gwasanaeth Tân am drefnu i roi dŵr yn y pwll; i bawb a fu'n cynorthwyo yn y bore i baratoi'r cae; ac i'r sawl a fu'n rhoi cymorth mewn ffyrdd eraill yn ystod y pnawn.

Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Cyfarfod Lansio Gwaddol

cyfrol o gerddi'r
Prifardd
Gwynfor ab Ifor



Dydd Sadwrn, 3 Awst am 1.30 y pnawn
yn y Babell Lèn ar Faes yr Eisteddfod

ying nghwmni **John Ogwen a Hogia'r Bonc**

Cyhoeddir y gyfrol gan Gyhoeddiadau Barddas.
Bydd copiau ar werth yn y cyfarfod lansio ac
ym Mhabell Barddas ar Faes yr Eisteddfod am
£7.95. Byddant hefyd ar werth yn Siop Ogwen.

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

- Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Ieuan Wyn.

Golygydd mis Medi fydd
Derfel Roberts
Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG.
01248 600965
E-bost: derfel.roberts@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 4 Medi
os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu
nos Iau, 19 Medi
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES
GWARANT Y BYDD UNRHYW
DDEUNYDD FYDD YN
CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Dyddiadur y Dyffryn

- Gorffennaf**

19 Atgofion ar Gân. Ystafell Gymuned-
ol Canolfan Feddygol Bethesda. 1.15
– 2.30.

20 Ffair Haf Eglwys St. Ann a St. Mair.
Neuadd Goffa Mynydd Llandygái.
11 – 2.

20 Gig Geraint Jarman a Maffia.
Neuadd Ogwen am 7.30.

26 Atgofion ar Gân. Ystafell Gymuned-
ol Canolfan Feddygol Bethesda. 1.15
– 2.30.

Awst

10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.

14-17 Arddangosfa Arlunio. Canolfan
Glasinfryn. 10yb – 4yp.

17 Cystadleuaeth Garlleg. Gwesty'r
Douglas, Bethesda am 3.30 yp.

Medi

06 Sefydliad y Merched Carneddi. Dr
John Ll. Williams. Cefnfaes am 7.00.

07 Bore Coffi Cronfa Tracey Smith.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

11 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefn-
faes am 7.30.

14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.

14 Bore Coffi NSPCC. Cefnfaes. 10.00 –
12.00.

19 Noson Casglu a Dosbarthu'r Llais.
Cefnfaes am 6.45.

21 Bore Coffi Eglwys Sant Tegai, Llan-
dygái. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

28 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.



Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen

- Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

Bangor

- Siop Forest

Siop Menai

Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon Siop Richards

Porthaethwy Awen Menai

Rhiwlas Garej Beran

Archebu
trwy'r
post

- Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Ymgymrwyr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

- Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Gwefan newydd i'r holl ardal

Mae cynlluniau ar y gweill i greu gwasanaeth digidol fydd yn gwneud gwahaniaeth i Ddyffryn Ogwen. Dyma adroddiad am y datblygiadau diweddaraf gan Guto Jones, Ysgogydd Bro360 yn ardal Arfon.

Ar ôl pedwar mis prysur iawn i mi ac i'r criw brwd yn ardal Dyffryn Ogwen, rydym gam yn nes at greu gwasanaeth digidol newydd sbon ar gyfer y fro.

Mewn sesiynau creadigol sydd wedi'u cynnal ym Methesda, rydym wedi dysgu sawl peth – mae llwyth o fudiadau i'w cael yma i allu cynnal gwefan fywiog o straeon lleol; mae angen gwasanaeth Cymraeg defnyddiol a diddorol a all dynnu'r gymuned ynghyd; ac mae llwyth o botensial i ddefnyddio gwahanol arfau digidol i wneud gwahaniaeth i'r fro.

Un peth sydd yn glir i'w weld yw bod mwy na digon o fwrlwm yn yr ardal yma er mwyn gallu greu a chynnal gwefan fro lwyddiannus.

Y cam nesaf fydd bwrw ati gyda'n harbenigwr technegol i greu elfennau cychwynnol y gwasanaeth – nid gwefan fach arferol fydd hon!

Un peth calonogol iawn o'r sesiynau yw'r awydd i greu calendr digidol... a'r bwriad yw creu adnodd arloesol yn y Gymraeg! Gall yr arf yma helpu'r gymuned i gydweithio, cynllunio a chefnogi ei gilydd – dyma ein cyfle cynta' i greu rhywbeth fydd yn cryfhau'r gymdogaeth leol.

Pa bethau eraill hoffech chi eu creu yn rhan o'r gwasanaeth Cymraeg newydd yma? Bydd eich gwasanaeth lleol yn cael ei ddatblygu gyda chi dros y misoedd nesaf, felly dewch i ddweud eich barn a chyfrannu syniadau, er mwyn gwneud eich gwasanaeth yn un unigryw a gwerthfawr! I gael mwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan, ac i gael manylion y sesiwn nesaf, cysylltwch â Guto Jones (gutojones@golwg.com neu 07827016672).

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Rhoddion i'r Llais

- £20 Mr a Mrs E.R. Jones, 7 Dob, Tregarth.
- £20 Er cof am Dylan Rowlands oddi wrth mam, dad a'r teulu.

Diolch yn fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Gorffennaf**
- £30 (96) Gwynfryn Davies, Caernarfon.
 - £20 (184) Enid Roberts, Tregarth.
 - £10 (125) Ann Williams, Gerlan.
 - £5 (22) Don Hughes, Halifax.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Troedio - Adweitheg Gwynedd

Mi fydd busnes newydd yn agor ym mis Gorffennaf ar Stryd y Plas, Caernarfon. Enw'r busnes yw Troedio - Adweitheg Gwynedd. Mae Troedio yn cael ei sefydlu gan Anwen Thomas MAR CRM5Dip o Bentir gynt, sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ers dros flwyddyn a hanner. Mae Anwen wedi cymhwyso mewn adweitheg i'r lefel uchaf bosib yn Mhrydain.

I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gyfarwydd gyda'r term adweitheg, efallai eich bod wedi clywed am y gair Saesneg, *reflexology*.

Mae adweitheg yn therapi hynafol sydd wedi cael ei ymarfer ers dros 5000 o flynyddoedd. Mae adweitheg yn therapi cyflenwol sy'n seiliedig ar y ddamcaniaeth bod gwahanol bwyntiau ac ardaloedd ar y traed, rhan isaf y goes, a'r dwylo yn cyfateb i wahanol rannau o'r corff. Credir y gall gweithio'r pwyntiau neu ardaloedd hyn helpu i ymlacio, rhyddhau tensiwn, gwella cwsge a helpu i wella lles yn gyffredinol; gan ein galluogi i ymdopi'n well â'r straen y gall bywyd ei greu. Gall adweitheg fod yn brofiad ymlaciol iawn lle y gallwch gymryd saib o bwysau a phrysurddeb bywyd bob dydd.

Meddai Anwen, "Mae'n therapi braf iawn ac mae'r technegau rwyf wedi'u dysgu yn ysgafn iawn ar eich traed. Os nad ydych yn hoffi cael eich traed wedi eu cyffwrdd, yna, gallaf addasu y therapi i'r dwylo. Hoffwn adael chi fewn i gyfrinach bach. Nid oeddwn yn medru dioddef i fy nhraed gael eu cyffwrdd am fy mod yn goglais, ond ers cychwyn ar y cwrs a chael fy nhraed wedi eu trin yn gyson, dwi



wrth fy modd yn derbyn triniaeth adweitheg."

Mae Anwen yn darparu therapi manwl a holistaidd sydd wedi'i deilwra'n unigol i chi.

Os ydych eisiau mwy o fanylion, yna cysylltwch ag Anwen.

Ffôn: 07999908550
E-bost: anwen@troedio.cymru
Tudalen we: www.troedio.cymru
Oriau Agor: 9.00am - 5.00pm
Gellir trefnu amserau i gyd-fynd â'ch amserlen waith. Cysylltwch ag Anwen er mwyn trafod.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru



Troedio
ADWEITHEG GWYNEDD
GWYNEDD REFLEXOLOGY



Anwen Thomas Ymarferydd Adweitheg MAR CRM5Dip

- Help i ymlacio
- Rhyddhau tensiwn
- Gwella cwsge
- Gwella lles gyffredinol

Cysylltwch ag Anwen i wneud apwyntiad neu am daleb anrheg

12 Stryd y Plas
Caernarfon
LL551RR

Ffôn: 07999908550
E-bost: anwen@troedio.cymru
Tudalen we: www.troedio.cymru

Oriau Agor: 9.00am - 5.00pm Dydd Llun i Ddydd Gwener

Y Gerlan

Caren Brown Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

Dyfodol Disglair!

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'r Gerlan sydd wedi llwyddo i gwblhau'r Cwrs Sylfaen Celf yng Ngholeg Menai eleni. Mae'r cwrs yn un heriol ac yn rhoi sylfaen da i fyfyrwyr wrth iddynt baratoi i benderfynu pa drywydd ym myd celf yr hoffent ei ddilyn yn y dyfodol. Mae'n amlwg bod Mabli Non a Cai Shea ddyfodol disglair o'u blaen a dymunwn bob lwc i chi yn y dyfodol.

Llwyddodd Mabli Non Stryd Uchaf i basio'r cwrs gydag anrhydedd a bydd yn mynd yn ei blaen i Goleg Ffasiwn Llundain i astudio colur ddiwedd yr haf. Dyma flas o waith Mabli.

Mae Cai Shea Ffordd Gerlan hefyd wedi llwyddo i basio'r cwrs ag anrhydedd. Llwyddodd Cai i ennill gwobr Myfyriwr y Flwyddyn am ei waith - anrhydedd mawr yn dilyn blwyddyn o waith caled! Ar gyfer ei sioe olaf, cynlluniodd ac arddangosodd dri darn o waith cerfluniol o bren a gwifren. Mae'r



darnau yma wedi eu dewis i'w harddangos yng nghanolfan beirianeg newydd Coleg Menai Llandrillo - safle Llangefni. Bydd Cai yn mynd yn ei flaen i ddilyn cwrs BA Anrhydedd mewn dylunio dodrefn a chynnyrch ym Mhrifysgol DeMontford, Caerlŷr ym mis Medi. Dyma ychydig o luniau o waith Cai.



Priodi

Llongyfarchiadau i Non, merch Urtha Felda, Stryd Goronwy, ar ei phriodas â Josh. Mae'r ddau wedi eu penodi'n feddygon yn Ysbyty Gwynedd ac am ymgartrefu yn yr ardal.

Colli un o selogion Gerlan

Ar y 23ain o Fehefin, yn 93 oed, bu farw Mrs Myfanwy Jones yn dawel ym Mhlas Ogwen. 'Roedd Myfanwy wedi ei geni a'i magu yn y Gerlan ac wedi byw yn y Gwernydd ers blyneddau maith. Yno magodd hi a'i diweddar ŵr, Wil Jones, eu dwy ferch - Marian a Gwenda.

'Roedd Myfanwy yn fam yng nghyfraith i Merfyn a Brian, yn nain, yn hen nain, yn fodryb ac yn hen fodryb annwyl iawn, a bydd ei theulu a'i ffrindiau yn ei cholli yn fawr. Bydd bwlch mawr ar ôl Anti Myf ac mae gan bawb atgofion melyn iawn ohoni.

Dathlu Dwbl

Bu dwy chwaer o'r Gwernydd yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Hoffai Caren a Lisa Brown ddiolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau am y dymuniadau da, yr holl gardiau a'r anrhegion maen nhw wedi eu derbyn. Maen nhw'n parhau i fwynhau'r dathlu!

Pasio prawf gyrru

Llongyfarchiadau mawr i Cadi Elen Roberts, Rallt Uchaf ar basio ei phrawf gyrru y tro cyntaf. Pob lwc efo'r gyrru, Cadi!

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Carneddi

Adre o'r Almaen

Mae'n dda cael cyhoeddi bod Ela Williams, 7 oed, o Gilfodan wedi dod gartref bellach ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol gyda niwronau mewn canolfan arbenigol yn Essen, Yr Almaen. Mae Ela erbyn hyn dan ofal arbenigwyr yn Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl a bydd yn gorfod mynd yno'n achlysurol iddynt gael cadw llygad ar ei chyflwr. Dymuna ei rhieni a'r teulu oll ddiolch i bawb am eu negeseuon o ewyllys da i Ela ac am eu cefnogaeth iddynt ar yr amser hwn.

Pob dymuniad da i ti Ela a gobeithio y byddi yn ôl yn llawn hwyliau yn fuan.

Yn yr Ysbyty

Yn dilyn cyfnod byr gartref, mae Alwen Eleri Hughes, Cilfodan yn ôl yn yr ysbyty. Rydym yn anfon ein cofion ati ac yn dymuno adferiad buan iddi gan obeithio y bydd yn cael dod adref yn y man.

Mae Emyr Peris Roberts, Ffordd Ffrydlas yn dal yn yr ysbyty ar ôl derbyn triniaeth i'w ysgyfaint yn Lerpwl. Mae Emyr wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ceisio cael adferiad iechyd ers mis bellach ond mae'n dda cael dweud fod arwyddion ei fod yn troi at wella erbyn hyn.

Dymuniadau gorau'r fro i ti Em a gobeithio y byddi'n ôl yng nghwmni dy deulu a dy ffrindiau'n fuan. Mae'r tîm bowlïo yn gweld dy golli'n arw!

gair neu ddau

John Pritchard

GOLEUNI NEWYDD

Doeddwn i ddim yn meddwl ei fod yn rhy ddrwg o gwbl. Mae wedi bod yn waeth o lawer, yn futrach nag oedd o'r dydd o'r blaen. Ar brydiau mae hyd yn oed wedi ymdebygu i swyddfa, yn llawn o bapurau a llyfrau a beiros. Ac yn sicr, mi wn i am rai blerach o lawer nag o. A dweud y gwir, roedd y tu allan newydd ei olchi rai dyddiau'n ôl wrth gael ei MOT blyneddol. Ond gan fod Aled yn cynnig golchi'r car, peth ffôl iawn fyddai i mi wrthod ei gynnig, yn arbennig o ddeall ei fod yn bwriadu llunau'r tu mewn hefyd.

Mi fu wrthi'n hir. Doedd hynny ddim yn anarferol gan ei fod yn tueddu i fod felly wrth olchi a thacluso'r car. Fyddaf fi byth yn siŵr ai fo sy'n gweithio'n araf ynteu'r car sy'n flerach na'i olwg! Mi wnaeth waith da, ac roedd y car yn werth ei weld, yn fwy taelus ac yn lanach nag y bu ers wythnosau. Ond yn fwyaf annisgwyl, roedd fel petai mwy o le ynddo, a hynny nid am fod y seddi'n wag a'r llanast wedi ei glirio ond am fod yna fwy o olau ynddo. Wir i chi, roedd tu mewn y ffenestri wedi eu llunau'n lân a'r

car bach yn ddiamheuol yn oleuach. Doedd hi ddim yn amlwg bod y ffenestri'n gymylog ac yn tywyllu peth ar y car. Dyw hi ddim yn amlwg chwaith bod rhai pethau'n atal goleuni'r Efengyl rhag treiddio i fywydau pobl. Un o'r pethau hynny yw'r ffaith syml nad yw pobl eisiau gwybod am Dduw nac am Iesu Grist a'i waith achubol nac am eu hangen nhw eu hunain am yr hyn y mae Duw yn ei gynnig iddynt trwy ei Fab Iesu. Y mae'r Efengyl fel goleuni llachar yn disgleirio yng nghanol tywyllwch ein byd a'n bywydau; ond mae amharoddrwydd pobl i ystyried ei neges yn atal y goleuni hwnnw. Mae Iesu Grist ei hun yn esbonio hynny trwy ddweud bod pobl yn 'caru'r tywyllwch yn hytrach na'r goleuni ... Y mae pob un sy'n gwneud drwg yn casáu'r goleuni' (Ioan 3:19-20).

Er mwyn llewyrchu goleuni'r Efengyl a goleuni Crist i'n bywydau mae Duw'n delio â'r galon, gan droi'r galon sy'n ei gasáu yn galon sy'n ei garu ac yn plygu iddo. Nid gwaith bach yw hwnnw; mewn gwirionedd, nid glanhau na hyd yn oed drwsio'r galon a wna Duw ond rhoi calon newydd. Ac â'r galon newydd honno y mae pobl Dduw yn medru gwerthfawrogi goleuni llachar Efengyl gras a'r olwg a rydd honno ar Iesu Grist a'i gariad. Heb y galon newydd, aneglur a chymylog ar y gorau fydd y newyddion da am y Gwaredwr i bawb ohonom.

Cynnig Gofal Plant Cymru

Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Gorffennaf
21 Boreol Weddi
28 Cymun Bendigaidd

Awst
4 Boreol Weddi
11 Cymun Bendigaidd
18 Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30yb.

Ar ôl y paratoi am ddathlu 150 o flynyddoedd mi gawsom wythnos fythgofiadwy. O'r gwasanaeth bedydd esgob a'r cyngerdd gwyd gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru i'r cwis a'r te bach, roedd yn wythnos brysur a hwyliog. Roedd yr eglwys yn agored bob dydd a daeth nifer da iawn i ymweld â'r arddangosfa luniau. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd at y dathlu.

Gair o ddiolch a gwerthfawrogiad
Hoffai Adrian a Mandy Hughes,

Garw Ganol, rhieni Morgan, ddiolch o waelod calon i griw o ferched o Glwb Cerdded Bethesda am gynnal te pnawn a phrosecco yn ddiweddar er budd Morgan. Bu'n bawn llwyddiannus dros ben a gwelwyd bwrlwm mawr yng nghlwb rygbi Bethesda a hynny oherwydd yr holl waith caled ddigwyddodd mewn paratoad i'r achlysur. Hoffai rhieni Morgan ddiolch hefyd i bawb arall a fu'n rhoi help llaw drwy bobi cacennau a bara brith, trefnu blodau a chasglu gwobrwyon raffl. Codwyd y swm o £2,307. Diolch yn fawr i chi oll.

Capel Shiloh, Tregarth
Dyma oedfaon Shiloh fydd yn cychwyn am 5 o'r gloch:

Gorffennaf 21	Philip Barnett
Gorffennaf 28	Trefniant Lleol
Mis Awst	Dim oedfaon
Medi 1	Richard Gillion
Medi 8	Gwynfor Williams
Medi 15	Cledwyn Williams
Medi 22	Glyn Owen

Adre o'r ysbyty
Da clywed fod dwy o drigolion Tal y Cae adre' wedi cyfnod eitha' hir mewn ysbytai a bod y ddwy bellach yn gwella yn ara' deg. Bu Nesta Williams, Y Fenallt gynt, yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am gyfnod ond bellach mae adre' yn ei hen gartref yn Tal y Cae. Cryfhau rŵan, Nesta!

Bu Dilys Parry Williams, Yr Encil, am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri hefyd ond mae wedi setlo erbyn hyn yng Nghae Garnedd, Penrhosgarnedd. Pwyll i chithau rŵan, a chofion gan eich ffrindiau i gyd.

Llongyfarchiadau
Braf iawn ydi cael llongyfarch un o griw ifanc yr Ysgol Sul a fu'n llwyddiannus yn ei arholiadau gradd yng Ngholeg Prifysgol Bangor eleni. Llwyddodd Huw Morris Jones, 28 Tal y Cae i gael Gradd Dosbath cyntaf mewn pwnc yn ymwneud â'r cyfryngau. Llongyfarchiadau mawr, Tomos.

Drws Agored
Cofiwch fod paned, cwmni a

sgwrs yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 o'r gloch a 12 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Dathlu Pen-Blwydd
Dyma lun o Glenys Clarke, gynt o Ffynnon Wen, Tregarth, ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Mae Glenys (ar y chwith) bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, ac yn y fan honno, ar bawn dydd Iau, 18 Ebrill, y cynhaliwyd ei pharti pen-blwydd yng nghwmni rhai o aelodau'r teulu, a Nev, Hogia Llandegai, â'i gitâr yn arwain y canu! Cafwyd pnawn i'w gofio a phawb mewn hwyliau da! Yn y llun hefo Glenys mae ei thair chwaer, Margaret, Jennie a Linor.



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Ysgol Pen y Bryn

Gŵyl Rygbi

Aeth Blwyddyn 3 a 4 i gae rygbi Bethesda i Wyl Rygbi oedd wedi cael ei drefnu ar gyfer ysgolion y dalgylch. Cafodd pawb lawer o hwyl yn chwarae rygbi a gwneud ffrindiau newydd. Diolch i Rhys y Swyddog Rygbi am drefnu'r ŵyl ac i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am helpu ar y diwrnod.

Partneriaeth Ogwen

Bu plant Glyder yn lwcus iawn o gael y cyfle i gydweithio gyda Cynan, Llinos a Gwenno o Partneriaeth Ogwen ar brosiect ynglŷn ag arbed ynni. Yn gyntaf, bu'r plant yn meddwl ar yr holl ffyrdd posib' o arbed egni ac yna roedd gofyn iddynt ddewis un maes penodol. Yn eu grwpiau, roeddynt wedyn yn cynllunio golygfa i'w hactio ar gyfer ei ffilmio. Wythnos yn ddiweddarach, daeth diwrnod y ffilmio! Gyda phawb wedi cofio'u 'props' a'u gwisgoedd bu actio brwdfrydig a chafwyd fideo hynod ddifyr ar y diwedd. Diolch o galon i chi am gael gweithio ar brosiect o'r fath!

Yn ogystal, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gan Meleri o Bartneriaeth Ogwen am brosiectau sydd yn digwydd yn ein hardal leol. Edrychwn ymlaen i gael bod yn rhan o'r datblygiadau cyffrous yn y dyfodol agos.

Paid Cyffwrdd, Dweud!

Ar Fehefin 21ain, cafodd bawb gyflwyniad ynglŷn â chyffuriau a sut i fod yn ddiogel. Cawsom sioe 'Paid Cyffwrdd, Dweud' gan Sian Miriam. Roedd yn gyflwyniad hynod o bwysig er mwyn cadw ein hunain yn ddiogel. Prif neges y cyflwyniad oedd i beidio cyffwrdd unrhyw beth anghyfarwydd a mynd i ddweud wrth unrhyw oedolyn am gyngor. Roedd pawb wedi dysgu llawer am y neges hynod bwysig yma. Cafodd blant blwyddyn 4, 5 a 6 gyflwyniad am ddiogelwch gydag alcohol yn ogystal. Roeddynt yn gyflwyniadau difyr a gwrandawodd y plant yn arbennig o dda.

Criced

Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth griced yng nghaeau Bangor yn ddiweddar. Cafwyd cystadlu brwd gan sawl ysgol. Da iawn bawb!!



Sgiliau Beicio-Beicio Cymru

Diolch mawr i Tim Matthews, Beicio Cymru, sydd wedi bod yn cynnal sesiynau sgiliau beicio gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 dros gyfnod o 6 wythnos. Roedd yn darparu'r beics yn ogystal ag helmedau i bob disgybl. Bu i bawb fwynhau'r sesiynau'n fawr iawn, yn enwedig y gystadleuaeth limbo!!

Cwt Bad Achub yr RNLI, Moelfre

Cafodd Blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod gwych yn ymweld â thraeth a chwt Bad Achub Moelfre! Yn y dosbarth, rydym wedi bod yn astudio diogelwch ar y traeth ac wedi sylweddoli gwaith arbennig mae'r RNLI yn ei wneud. Diolch yn fawr iawn i Steven Owen am ei sgwrs ddiddorol ac am ein tywys ni o gwmpas pentref Moelfre er mwyn cael gweld safleoedd rhai o longdrylliadau enwocaf Ynys Môn! I orffen y diwrnod, fe ddilynwyd ni daith yr helfa drysor i'r traeth lle buom ni'n brysur yn adeiladu tyrrau o gerrig, yn archwilio pyllau bas, heb anghofo'r hufen iâ!



L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyflwyno Proffil Personol

Ddydd Gwener, 21ain o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion Blwyddyn 11 ac 13 cyn gadael yr ysgol. Mr Dylan Jones, cyn-ddisgybl sydd newydd gychwyn ar ei swydd fel Dirprwy Bennaeth yn yr ysgol, oedd y gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd eitemau cerddorol gan Dafydd Hedd, unawd cello gan Gwydion Rhys ac unawd o sioe gerdd 'Chess' gan Pedr Owen. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Sion Davies, Esme Crowe a Morgan Davies



Gwydion Rhys, Miriam Parry ac Iestyn Owen

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu 83 o ddisgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod. Cawsant gyfle i flasgu gwersi addysg gorfforol, mathemateg a chael cyfnod yn eu



Disgyblion yr ysgolion cynradd yn mwynhau!

dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu ym mis Medi!

Ymweliad â Phrifysgol Rhydychen

Fe gafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 brofiadau gwych yn ddiweddar ar ymweliad â Choleg Balliol sef un o golegau Prifysgol Rhydychen. Rhwng y gweithdai mathemateg a meddwl critigol, cawsant eu tywys o amgylch y campws a chael cinio mewn ffretur a oedd yn union fel 'Hogwarts'! Cyn mynd adref bu'r disgyblion yn lwcus i gael sgwrs â chyn-ddisgybl Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethan Hughes, sydd yn astudio ym Mhrifysgol Rhydychen ar hyn o bryd. Diwrnod hir ond ysbrydoledig gyda nifer â'u llygaid ar fynd yn ôl yn y dyfodol.



Rhai o'r disgyblion yn mwynhau'r bwyd yng Ngholeg Balliol

Ymweliad Comisiynydd yr Iaith

Ar yr ail o Orffennaf, cafodd criw o Flwyddyn 8 yr anrhydedd i gyfarfod â'r dyn pwysicaf yng Nghymru sef Comisiynydd y Gymraeg, Mr Aled Roberts. Daeth i'r ysgol gyda'i gyd-weithiwr Meinir, er mwyn trafod y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a sut y gallwn ni annog pobl eraill i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Soniodd am yr hyn mae'n ei wneud o ddydd i ddydd yn ei waith a'r heriau sy'n ei wynebu. Cawsom gyfle



Betsan ac Osian gyda Mr Aled Roberts

i gwestiynu'r Comisiynydd am yr heriau yn ei waith, a soniodd yntau am ei brofiadau personol â'r iaith Gymraeg. Yn bendant, gwnaethom fwynhau a dysgu pethau nad oeddem yn eu gwybod o'r blaen, ac rydym ni'n ddiolchgar i'r Comisiynydd am fod mor barod i rannu ei brofiadau a'i syniadau newydd.

Betsan Griffiths (Blwyddyn 8)

Athletau NASUWT Arfon

Bu sawl perfformiadau safonol gan ddisgyblion Bl. 7 i 10, gyda thîm merched Bl. 8 yn gorffen yn 2ail ac yn mynd ymlaen i gynrychioli Arfon ym mhencampwriaethau Eryri ble gorffennwyd yn 6ed. Llongyfarchiadau, ferched!

Llongyfarchiadau i Boe Celyn Jones am orffen yn 2ail yn ras 3000m ym mhencampwriaeth atletau Cymru mewn amser o 10:46.

Llongyfarchiadau i Madeleine Sinfield am orffen yn 3ydd yn y naid uchel ym mhencampwriaeth atletau Cymru wrth iddi neidio 1.38m, ac am orffen yn 1af yn y ras 800m.

Llongyfarchiadau i Natalie Owen am orffen yn 3ydd yng nghystadleuaeth taflu'r ordd ym mhencampwriaeth atletau Cymru wrth iddi daflu 43.90m.

Llongyfarchiadau i Ela Oliver am orffen yn 4ydd yn ras 100m ym mhencampwriaeth atletau Cymru, yn methu allan ar fedal o drwch blewyn.

Beicio mynydd

Llongyfarchiadau i dîm bechgyn dan 13 am orffen yn 1af yng nghystadleuaeth beicio mynydd Gwynedd. Cawsant fynd ymlaen i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Gogledd Cymru a llwyddodd y bechgyn i orffen yn 1af. Da iawn Aron Bale, Osian Moore a Ceirion Roberts.

Criced

Llongyfarchiadau i dîm genethod Blwyddyn 7 ac 8 ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth criced Gogledd Cymru ym Mae Colwyn, gan ennill pob gêm. Tîm genethod dan 15 wedi perfformio'n wych yn eu cystadleuaeth nhw trwy ennill pob gêm ar y ffordd i'r rownd derfynol cyn colli o 1 rhediad. Safon uchel iawn o griced!

Nofio

Llongyfarchiadau i Catherine Roberts am berfformio'n wych yn ei ras pili pala 100m a 200m yn Abertawe. Bydd nawr yn mynd ymlaen i bencampwriaethau Prydain. Pob lwc!

Pêl-droed

Cymerodd genethod dan 12 a dan 15 ran mewn cystadleuaeth bêl-droed yn Llangefni ac yn y Bala yn ddiweddar. Chwaraewyd pêl-droed da iawn ar adegau ond methu allan ar fynd trwodd i'r rowndiau terfynol.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

glastonbury

Go brin fod unrhyw gôr meibion yn yr holl fyd, heb sôn am gôr meibion o Gymru, wedi ennill y fath enwogrwydd trwy gyfrwng dulliau modern o gyfathrebu. Tra bod corau yn y gorffennol wedi gorfod dibynnu ar adroddiadau mewn papurau lleol, taleithiol a chenedlaethol i wneud enw iddyn nhw'u hunain, mae byd adloniant yr oes hon yn medru lledaenu gwybodaeth dros y byd mewn eiliadau trwy gyfrwng llwyfannau electronig fel 'YouTube', 'Facebook', 'Spotify' a 'Twitter'.

Mae Côr y Penrhyn bellach yn adnabyddus drwy'r byd oherwydd iddo lwyddo i rannu llwyfan â rhai o enwau mawr y byd adloniant torfol. Mae'r côr wedi ennill yr enwogrwydd haeddiannol hwn oherwydd ei barodrwydd i fentro i feysydd dieithr a gwahanol i'r hyn mae corau meibion eraill wedi bod yn gyfarwydd â'i wneud.

Daeth hynny i fod trwy gymryd rhan mewn prosiectau newydd tebyg i'r hyn a welwyd gan 9Bach, y grŵp gwerin sydd â'i wreiddiau yn Nyffryn Ogwen. Bod yng nghefn y llwyfan fel sain cefndir l 9Bach oedd cyfraniad y côr i sioe'r grŵp gwerin adnabyddus hwnnw ym Mangor ac yng Nghaerdydd. Wedyn daeth gwahoddiadau i gymryd rhan mewn rhaglenni teledu fel 'Flog It' a sioeau Al Murray ac Alan Titchmarsh.

GWAITH ELUSENNOL

Y llynedd cafwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn sioe fawr Mike Peters o'r grŵp roc 'The Alarm' oedd am gynnal noson o gerddoriaeth roc a gwerin i godi arian at ei elusen 'Cariad, Gobaith a Nerth.' Mae'r elusen honno'n cyfrannu miloedd at ymchwil i ganser. Cyfrannodd y côr ei amser a'i ddoniau am ddim i'r elusen y llynedd ac eleni a llwyddwyd i godi miloedd o bunnau at yr achos da arbennig hwnnw.

Cafwyd noswaith elusennol hefyd at Hosbis Llandudno a chlefyd Motor Niwron yn Eglwys Gadeiriol Bangor pryd yr ymunodd band pres o Stavanger, Norwy â ni. Ond efallai mai'r cysylltiad mwyaf ysgytwol oedd hwnnw a wnaed efo Damon Albarn o'r grŵp roc 'The Good, the Bad and the Queen'. Mae'r person arbennig hwnnw wedi bod yn enwog yn y byd canu poblogaidd ers yr wythdegau pan oedd yn aelod o'r grŵp 'Blur.' Bu'n aelod o'r grŵpiau 'Gorillaz' a 'Parklife' hefyd. Roedd o'n awyddus i gael y côr i ganu ar ei albwm, 'Merrie Land' a gyfansoddwyd ganddo yn dilyn y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd, rhywbeth sy'n gas gan Albarn.



"Profiad bythgofiadwy,"
Fred Buckley,
Tregarth

NEWID EI FARN AM Y CYMRY

Dwedodd Damon Albarn fod y profiad o recordio cân gyda lleisiau cynhyrfus Côr y Penrhyn wedi newid ei farn am y Cymry. "Roeddwn i'n arfer bod yn eu hofni fel petaen nhw ddim eisiau fy adnabod," ond aeth ymlaen i ddweud, "ond rŵan dwi'n credu bod yna rywbeth hardd amdanyn nhw ac erbyn hyn rwy'n teimlo eu bod ymhlith y bobl hyfrytaf yn y byd."

Wedi recordio gyda'r grŵp yng Nghastell Penrhyn aeth y côr i Blackpool i helpu yng nghyngerdd lansiô'r CD. Wedi hynny daeth gwahoddiad i deithio gyda GBQ i'r Palladium yn Llundain ac i Somerset House ym mhrifddinas Lloegr unwaith eto, ond y mwyaf o'r cwbl oedd Glastonbury yng Ngwlad yr Haf.

WILLIAM EMYR MORRIS-JONES

Dymuna Glenys a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth, ac am y casgliad o £650 i Gymdeithas Alzheimer er cof am William Emyr Morris-Jones.

"Rhywbeth i'w drysori ac i adrodd i blant ein plant,"
Rheinallt Davies,
Hen Barc.

"Y gorau eto,"
Wil Parry, Bangor.

"Faswn i ddim wedi colli hynna am y byd,"
Wyn Roberts,
Llanfairfechan.



Damon Albarn o'r grŵp 'The Good, the Bad and the Queen' gydag Owain Arwel Davies, arweinydd y côr.



"Dyna i chi sioe fythgofiadwy,"
Daniel Williams,
Y Felinheli

"Am wefr ac am gynulleidfa,"
Raymond Roberts,
Penmaenamawr.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai

Ymddiheuriad
Oherwydd rhesymau technegol ni
ymddangosodd newyddion St Tegai ym mis
Mehefin, felly gwelir sawl pwt o newydd o'r
ddau fis diwethaf yn y rhifyn yma.

Festri Pasg 2019

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Eglwys St
Tegai ar Ebrill 14eg. Cafwyd adroddiad gan y
Ficer ble y cadarnhawyd yn swyddogol fod St
Tegai wedi cael y caniatâd hirddisgwyliedig
gan yr Esgobaeth i ddechrau ar y gwaith
atgyweirio. Etholwyd Edmond Douglas
Pennant yn Warden y Bobl ac yn Drysorydd a
chytunodd Ann E. Williams i gario ymlaen fel
Warden y Ficer. Ail-etholwyd Nerys Jones fel
Ysgrifenyddes yr eglwys. Pob bendith arnynt
yn eu gwaith.

Yr Wythnos Sanctaidd

Cawsom dywydd heulog ar gyfer Gorymdaith
y Groes dydd Gwener Groglith. Cafwyd
taith bendithiol iawn o St Tegai ac ar hyd
ffyrdd pentrefi Llandygai a Thalybont wrth
i'r pererinion weddïo dros y cymunedau a
gwaith yr eglwysi yn yr ardal.
Diolch i'r criw a ddaeth i lanhau ac addurno'r
eglwys ar gyfer y Pasg. Roedd eglwys St
Tegai yn edrych ar ei gorau i groesawu'r
Atgyfodiad a braf oedd gweld cynulleidfa
hapus yn mwynhau'r addoliad.

Ffarwel i'r Chwaer

Cymysg oedd y teimladau ar nos Lun yn dilyn
y Pasg wrth i Bro Ogwen ddweud ffarwel wrth
Y Chwaer Julian sef Judith Page. Cynhaliwyd
gwasanaeth o ddiolch yn eglwys St Tegai
gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn yn Neuadd
Talgai. Roedd wedi ymgartrefu yn ein plith ac
yn ein calonnau dros 8 mlynedd gan gefnogi
addoliad a gweithgareddau ar draws y dyffryn.
Ei phrif gyfrifoldeb yn ddyddiol fel lleian
yn ei chell oedd i ymbilio drosom yn unigol
ac yn gynulleidfaol, ond bydd colled enfawr
ar ei hôl yng ngweithgareddau'r Fro. Egni,
hiwmor ffraeth a gwallt lliwgar, ni anghofwn
y Chwaer Julian! Gyrrwn ein dymuniadau
gorau iddi a'n gweddïau drosti wrth iddi
ymgartrefu a chreu bywyd newydd gyda'i
merch Holly yn Swydd Caerhirfryn.

Helfa Chwilen

Unwaith eto daeth bwrllwm yr helfa i Neuadd
Talgai nos Iau Mai 2ail wrth i blwyfolion ac
aelodau'r eglwys gystadlu i greu chwilen.

Trefnwyd y noson "retro" hwyliog gan Liz
Bestwick er budd yr eglwys. Diolch iddi am
drefnu a chadw trefn ar yr hwyl a'r chwareuwyr!

Cyngerdd Cantabile

Cynhaliwyd cyngerdd gan y côr "Cantabile"
yn yr eglwys am 7 o'r gloch, Mai 10fed ble
y rhoddwyd yr elw at Gronfa Atgyweirio'r
Eglwys. Cafwyd gwledd o ganu a datganiad ar
y clychau bach a ddaeth ag atgofion melyn o'r
hen draddodiad yn yr eglwys hon. Diolch i'r
côr a'r unawdydd am eu rhaglen ddifyr.

Diwrnod Rhodd Gŵyl St Tegai

Daeth diwrnod ein nawddsant St Tegai
ar Fehefin 2ail eleni. Mae'r Sul yn gyfle i
aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda
chysylltiadau personol â phentref Llandygái
gynnig rhodd arian tuag at gostau cynyddol
rhedeg yr eglwys, cynnal y fynwent ac
atgyweirio ein hadeilad hanesyddol. Diolch i
bawb a gyfrannodd mor hael.

Dydd Iau Dyrchafael

Daeth tymor y Pasg i ben ar Fai 30ain gyda
gwasanaeth bendithiol y Dyrchafael i holl
eglwysi Bro Ogwen. Cafwyd pregeth fywiog
gan Y Tad John Matthews yn annog pob
un ohonom i wneud ein rhan i ledaenu y
newyddion da am yr Iesu.

Stondin Ysbyty Gwynedd

Cynhaliwyd stondin er budd yr eglwys yn yr
ysbyty ddydd Llun, Mehefin 10fed. Diolch i'n
gwirfoddolwyr a fu'n gwerthu'r nwyddau a'r
tocynnau raffl.

Croeso'n ôl

Braf yw cael croesawu John a Sue Matthews
yn ôl i'n plith ar ôl eu hymweliad â Seland
Newydd. Cawsom gyflwyniad difyr am eu
profiadau gan y Ficer a'i wraig i aelodau o
eglwysi Bro Ogwen yn ddiweddar yn Ysgoldy
Maes y Groes.

Yr Ardd Weddi

Ar ddiwrnod heulog a phoeth diwedd mis
Mehefin daeth criw o Undeb y Mamau Bro
Dwynwen i'r ardd weddi yn Ficerdy Pentir.
Cafwyd gwasanaeth bendithiol a myfyrdod o
dan arweiniad y Parchedig John Matthews.

Garddwest y Tair Eglwys

Dyddiad i'w gofnodi! Bydd yr Arddwest
boblogaidd yma ddydd Sadwrn Gorffennaf
13eg 2019. Mae digon o amser gennych
i gasglu cyfraniadau ar gyfer stondinau
amrywiol - anrhegion a nwyddau bychain
newydd yn dderbyniol iawn!

Adferiad Buan

Mae sawl aelod o'r gynulleidfa yn derbyn
triniaeth yn Ysbyty Gwynedd neu yng Nglan
Clwyd. Dymunwn wellhad buan iddynt oll.

Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai

Y drefn arferol yn y mis yw: Gwasanaethau'r
Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30
y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y
mis am 11 y.b.
Gwasanaeth Taizé Bro Ogwen ar y pedwerydd
Sul am 5 y.h.



Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Cydymdeimlo
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 89 mlwydd oed bu farw Ieuan Wyn Owen, Glanrhyd, priod y ddiweddar Dilys a thad a thad yng nghyfraith Eurig a Diane, Bethan ac Eifon; taid Dylan, Danny, Shoned, Emma a Manon, a brawd mawr Menna. Bu’n byw am gyfnod yn Rhes Uchaf, cyn symud i Garfan ac yna bu’r teulu yn ffermio yn Glanrhyd. Bu’r gwasanaeth yn Eglwys Sant Cedol, Pentir gyda’r Parch. Bryn Williams yn gwasanaethu, yn ffrind i’r teulu ac yn adnabod Ieuan yn dda. Derbyniwyd rhoddion tuag at Diabetes UK a Meddygfa Felinheli. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich colled drist.

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref yn Llanrug bu farw Iorwerth Williams yn 87 mlwydd oed, gŵr y ddiweddar Alwena, tad Anwen a’i phriod Alwyn, a thaid Bethan a Ianto. Un o Rhiwlas oedd Alwena, wedi’i magu yn Rhes Uchaf ac yno y bu’r ddau yn byw ar ôl priodi. Symud wedyn i Gae Glas ac yna i Lanrug. Bu colli Alwena dros ugain mlynedd yn ôl yn ergyd drom iddo. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth a bu’n gweithio am flynyddoedd i’r Bwrdd Iechyd. Roedd yr angladd yn yr Amlosgfa gyda’r Parch. R. E. Hughes yn gwasanaethu, un a oedd yn adnabod y teulu’n dda pan oedd yn weinidog ym Methel, pentref genedigol Iorwerth. Cafwyd teyrnged bersonol a hwyliog iddo gan Bechan, a chydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth. Derbyniwyd rhoddion tuag at Feddygfa Waunfawr ac Ambiwllans Awyr Cymru.

Merched y Wawr
I ddiweddu’r tymor fe aethom am bryd o fwyd

i westy Breeze Hill, Benllech. Yn anffodus, roedd sawl un yn methu dod ac anfonwyd ein cofon atynt. Fe fydd y tymor nesaf yn dechrau ym mis Medi a bydd croeso i aelodau hen a newydd.

Clwb Rhiwen
Pnawn ym Mhant Du, Penygroes a gawsom i ddirwyn y tymor i ben. Roedd yn bawn braf a Dyffryn Nantlle ar ei orau. Fe fyddwn yn ail-ymgynnull ym mis Medi. Croeso i aelodau newydd.

Ymateb i erthygl
Fe gofiwch i Hefin Williams sôn am aelodau o’i deulu a oedd y tenantiaid olaf ym Maes Meddygon. Y mae am ddiolch i’r rhai a gysylltodd ag ef o ganlyniad i’r erthygl yn y Llais. Mae ganddo ddiddordeb yn y murddunnod sydd yn y pentref. Pen y Ffridd yw un ohonynt ac roedd 6 thy yno ar un amser. Braf fuasai cael gwybod pwy oedd y teuluoedd yma. Murddun arall yw Beudy Gors, er mae’n debyg mai Pant Gwyn yw’r enw gwreiddiol. Nepell o Feudy Gors mae Llidiart Mawr. Beth tybed oedd hanes hwn? Buasai’n drist iawn i ni golli’r hanes, ac os oes gennych wybodaeth gallwch gysylltu â Hefin neu ysgrifennu i’r Llais.

Taith Gerdded
Cofiwch am y daith gerdded i lawr Lôn Plas, taith yn dilyn y darlithoedd am Blas Pentir. Dyma’r manylion, Nos Iau, Gorffennaf 25 a chychwyn o Gapel Peniel am 6.30 yh. Bydd angen esgidiau cryfion.

Llwyddiant eto
Rhaid llongyfarch Manon Steffan Ros y mis hwn hefyd gan iddi gael y wobr driphlyg yn noson wobrwyo Llyfr y Flwyddyn 2019 gyda *Llyfr Glas Nebo*. Fe’i gwahoddwyd i’r llwyfan yn gyntaf i gasglu Gwobr Barn y Bobl Golwg 360, yna i dderbyn Gwobr Ffuglen Prifysgol

Aberystwyth, cyn dychwelyd eto i dderbyn prif wobr y noson, sef Llyfr y Flwyddyn. Derbyniodd wobr ariannol a thlws wedi’i gynllunio a’i greu gan yr artist Angharad Pearce Jones. Cyflwynwyd y wobr i Manon gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas. Llongyfarchiadau calonnog i ti, Manon. Rydym yn ymfalchuio mai hogan o Rhiwlas wyt ti, wedi cael dy addysg yn ysgol y pentref ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen.

Taro’r Post
Gwestai Dylan Jones un bore oedd Margaret Williams o Abererch sy’n gweithio mewn fferyllfa ym Mhwillheli. Dyma sylweddoli mai Margaret Jones, gynt o Teras Penrhyn, ydoedd. Roedd yn westai ar y rhaglen am ei bod wedi treulio 60 o flynyddoedd yn gweithio mewn amrywiol fferyllfeydd. Wedi gadael Ysgol Dyffryn Ogwen dechreuodd weithio yn fferyllfa Mesach Roberts ar y Stryd Fawr ym Mangor lle roedd ei diweddar chwaer, Olive, yn gweithio. Wedi priodi â Meurig, symud i Abererch a gweithio mewn fferyllfa ym Mhwillheli. Mae’n ymweld â Rhiwlas yn wythnosol i weld ei brawd, Elwyn, ar ôl galw ynghynt i weld Menai, ei chwaer, ym Mhorthaethwy. Hefyd mae’n mynychu’r gweithgareddau sydd yn y Neuadd. Llongyfarchiadau i ti, Margaret, am weithio am 60 mlynedd yn y fferyllfeydd. Dw i’n siŵr dy fod efo sawl stori i’w hadrodd – yn sicr rwyf wedi gweld newidiadau dros y blynyddoedd.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrac ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Ar Goll – Ein Hanes!

Bydd rhai o gyn-ddisgyblion Ysgol Waen Pentir, Rhiwlas yn cofio casgliad o eitemau egsoftig yn cael eu harddangos mewn cwpwrdd gwydr yn y brif ystafell. Ymysg y rhain yr oedd neidr wedi ei phiclo, asgwrn rhyw anifail a charreg eithaf nodweddiadol.

Cofnododd R.O. Roberts, Bronydd fod y garreg yma yn un o weddillion cynharaf ardal Rhiwlas a Phentir ac yn grair o’r cyfnod

Neolithig, rhwng 2,500 a 1,250 o flynyddoedd cyn Crist. Disgrifiai hi fel pen bwyell a ddarganfuwyd tua 1920 wrth chwalu hen simnai yng Ngharfan, Pentir ac fe’i rhoddwyd i’r ysgol leol er mwyn arddangos hanes yr ardal.

Wrth hel hanes y pentref bu imi ddeall gan Mr Davies, Pennaeth Ysgol Rhiwlas, nad yw’r garreg yn yr ysgol mwyach, ac fel Cofeb Rhyfel 1914-1918, mae’n amlwg wedi ei symud oddi yno beth amser yn ôl.

Bu imi holi os oedd y garreg wedi ei hanfon i

Amgueddfa Genedlaethol Cymru a/neu i Amgueddfa Bangor (Storiol). Nid oes cofnod o’r garreg yng Nghaerdydd nac ym Mangor.

Ar ôl disgrifio’r garreg i arbenigwraig yng Nghaerdydd, barnodd mai morthwyl Neolithig (hafted hammerstone) fyddai’r crair, i’w defnyddio i naddu cerrig eraill.

Ble mae’r garreg hynafol yma wedi mynd? Cysylltwch gyda Cynrig os oes gennych unrhyw wybodaeth - 01248 601318.

Cynrig Hughes

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATIL

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOC: DERFEL OWENS

Ysgol Tregarth

Ymweliad Pili Palas

Thema Dosbarth Llywelyn a Dosbarth Idwal yr hanner tymor yma yw ‘Gwingo ac Ymlusgo’, felly i ffrwdd â ni am dro i Pili Palas, er mwyn cael dysgu mwy amdanynt. Roedd yn ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod y creaduriaid bach a hyd yn oed cyffwrdd rhai ohonynt! Plantos dewr iawn wir.

Rhieni Newydd

Cafwyd prynhawn hyfryd ddiwedd mis Mehefin wrth i’r ysgol groesawu disgyblion y dyfodol a’u rhieni. Roedd y neuadd yn orlawn a chafwyd prynhawn difyr o rannu gwybodaeth am yr ysgol gan Mrs Jones. Bu’r plant bach yn brysur yn chwarae ac yn peintio – ac roeddent yn ddigon o sioe! Croeso atom i Ysgol Tregarth.

Diwrnod Trosglwyddo

Tra bod plant Blwyddyn 6 yn treulio diwrnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen cafodd gweddill yr ysgol gyfle i dreulio diwrnod yn eu dosbarthiadau newydd. Roedd hi’n braf croesawu’r plant fydd yn dod i’r Dosbarth Meithrin ym mis Medi. Diolch yn fawr iawn i Anti Shirley am drefnu a pharatoi cinio blasus unwaith eto.

Gwasanaeth Gadawyr Cadeirlan Bangor

Bnawn Mercher, Mehefin 19eg, ymunodd Bl 6 â chyfoedion iddynt o amrywiol Ysgolion Eglwysig mewn gwasanaeth arbennig yng Nghadeirlan Bangor. Croesawyd pawb gan yr Esgob Andy John a chafwyd gwasanaeth hwyliog yn cynnwys storïau, gemau, gweddiâu a chanu. Cyn gadael cyflwynwyd pawb â thystysgrifau a phhecyn bwyd i’w ffynhau ar y ffordd adref.

Ysgol Arweiniol Prosiect Shirley Clarke

Brynhawn Iau, Mehefin 27ain croesawyd nifer o athrawon o amrywiol ysgolion ar draws gogledd Cymru i Ysgol Tregarth. Cynhaliwyd cyfarfod adolygu gydag ysgolion

Haen 2 i drafod a chyflwyno strategaethau a argymhellir gan GwE drwy brosiect Shirley Clarke. Cafodd amryw o’n disgyblion gyfle i ddangos a thrafod eu gwaith, a chafwyd clod aruthrol i ddyfnder eu dealltwriaeth a’u sgiliau llafar hyderus. Roedd ein hymwelwyr wedi gwirioni ac yn nodi fod y strategaethau yn amlwg wedi eu gwreiddio ar draws yr ysgol. Clod yn wir i’r disgyblion a’r athrawon. Mynychwyd y cyfarfod gan Mr Ieuan Jones ar ran GwE, ac roedd yntau o’r un farn.

Llangrannog

Cafodd blwyddyn 5 a 6 y fraint o gael mynd am benwythnos llawn gweithgareddau i Langrannog yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Ugain o aelodau’r Urdd yn cael cyfle i brofi nifer o wahanol weithgareddau megis sgïo, nofio, marchogaeth a chwrs rhaffau uchel. Cafodd y plant benwythnos llawn hwyl ac wedi mwynhau amryw o bethau gwahanol. Dywedodd Shannon, “Mi wnes i ffynhau’r cwrs neidio o uchder a nofio.” Roedd Millie wedi mwynhau’r “gweithgareddau yn y mwd a sgïo o dop y llethr.” Y disgyblion i gyd yn wir wedi mwynhau’r profiad yn amlwg.

Diwrnod Lliwgar

Mae’r cyngor eco wedi bod yn brysur ac yn weithgar iawn yn ystod y tymor. Yn ystod yr hanner tymor diwethaf penderfynodd y cyngor bod angen datblygu gardd yr ysgol a’r ardal tu allan. Gwahoddwyd y cyngor i ddisgyblion yr ysgol ddod â phlanhigion, pethau sy’n troelli yn y gwynt, potiau a llawer mwy er mwyn sicrhau fod yr ardd a’r ardal tu allan yn lliwgar ac yn ddeniadol. Fe ddaeth llawer o ddisgyblion â nifer o blanhigion a photiau er mwyn plannu - rydym yn ffodus iawn o gael rhieni cefnogol. Diolch yn fawr iawn i chi.

Cwm Idwal

Gweithgaredd awyr agored Dosbarth Ogwen ar gyfer yr hanner tymor olaf oedd cerdded o gwmpas Cwm Idwal gyda thîm anelu. Cychwyn y daith ben bore a chael cyfle i



Diwrnod Lliwgar

ddysgu amryw o ffeithiau am y cwm, a’r ardal o’n cwmpas. Roedd hyn yn gyfle gwych i’r disgyblion fentro, ac yn sicr roedd pawb wedi mwynhau’r profiad. Braf gweld cymaint o blant yn dod yn ôl i’r ysgol yn ystod y diwrnodau nesaf yn dweud eu bod wedi mynd yn ôl i ffyni’r cwm gydag aelodau o’u teulu. Y trip yn amlwg yn ddylanwad positif ar fywydau’r disgyblion.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI’R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o’r gloch a hanner dydd.

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS



Ymweliad Pili Palas



Llangrannog

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Na, dw i ddim wedi anghofio am y Clwb Golff yn Nant Ffrancan ac unwaith y byddaf wedi dilyn awgrym a dderbyniais oddi wrth Dilys Pritchard, Adwy'r Nant, ailgydiad yn yr hanes, gan obeithio y bydd gen i ragor o wybodaeth i chi. Ond dw i'n gallu ailafael mewn un thema a adewais yn yr awyr, fel petai, rai misoedd yn ôl, sef hanes carnifalau'r Dyffryn.

Y tro hwn, dw i am fynd â chi'n ôl i 1953 a sôn y 'Rose Queen Festival' a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, Mehefin 12, y flwyddyn honno. A barnu oddi wrth y rhaglen, hon fyddai wedi bod yn un o'r gwyliau mwyaf Seisnigaidd a gynhaliwyd yn Nyffryn Ogwen erioed a gallech gyfrif ar un llaw y nifer o eiriau Cymraeg oedd ar bedair tudalen y rhaglen! Dw i am ofyn, wrth fynd heibio, tybed faint o'r enwau isod sydd yn gyfarwydd i rai ohonoch chi?

Ar dudalen flaen y rhaglen, cawn: *Bethesda & District Publicity Association*
President: Lady Janet Douglas Pennant

Ac enwau'r Swyddogion ar yr ail dudalen:
Chairman: Mrs Olwen Hughes
Vice Chairman: Mr A. H. Davies
Treasurer: Miss Blodwen Parry
Secretary: Mr D. E. Roberts

Roedd yr ŵyl yn dechrau gyda'r *Carnival Dance* yn Neuadd yr Eglwys am 8 o'r gloch nos Fercher, Mehefin 9, ond ar y dydd Sadwrn cynhaliwyd y *Rose Queen Carnival*

Parade (am 1pm); *Carnival Sports* (6pm); *Open Air Dance* (am 8pm) – y ddau weithgaredd hyn ar 'Meurig Park'; yna ychwanegir 'Music by the Deiniolen Silver Band, Conductor: Eric Morris, B.A.'

Crybwyllir, hefyd, weithgareddau eraill a gynhelid yn yr ardal rhwng Mehefin 2 ac Awst 14, gan gynnwys y 'Pont Tŵr Slate Queen and Carnival' ar Awst 14. Ond ar Fehefin 18 ac eto ar Awst 16, roedd 'Arranged Party to Greet the Dawn' (ar Garnedd Llewellyn – a dyna'r sillafiad yn y rhaglen!) a phawb i gyfarfod am 11 o'r gloch y nos (ond ni ddywedir ym mhle!).

Roedd y *Carnival Competitions* yn cynnwys y cystadlaethau arferol ac ymhlith y beirniaid yr oedd Mr R. Pardoe, Prifathro'r *Dyffryn Ogwen School* (ys gelwid Ysgol Dyffryn Ogwen bob tro!) a Miss Bassett, B. Sc., y bydd nifer ohonom yn ei chofio ar staff yr Ysgol. Ddechrau'r pawns, roedd y *Deiniolen Silver Band* yn arwain y *Carnival Parade* drwy'r *High Street*, Adwy'r Nant a *Pant Glas Road* ac at yr *Ogwen Cinema*.

Yna caiff y 'Grand Assembly' dudalen gyfan, gan ddechrau gyda threfn fanwl y rhaglen: *Herald*

1. *Queen Rosalie Williams and her Court*
2. *Fairy Queen Anne Hughes and her Court*
3. *Visiting Queens*
4. *Queen Elect Nesta Wyn Jones and her Court*
5. *Fairy Queen Patricia Thomas and her Court*

6. *The Crowning Ceremony*
7. *Speech by Queen Rosalie Williams*
8. *Presentation*
9. *Speech by Queen Nesta Wyn Jones*
10. *Fairy Queen and her Court Song and Dance*

Mae Nesta (a fagwyd ar Allt Pen-y-bryn) a'i gŵr, Rhys Llwyd, fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr *Llais Ogwan*, yn byw ers blynyddoedd bellach yn Nhal y Cae, Tregarth.

Cawn wybod wedyn mai'r *Herald* oedd David William Moran, y *Crown Bearer* oedd John W. Jones a'r *Cushion Bearer* oedd Derek W. Griffith; y *Train Bearers* oedd W. Vaughan Edwards, Gareth W. Jones, Richard Roberts a Bernard Jones; a'r *Attendants*: Eleanor Thomas, Margaret Llechid Williams, Jean Hughes, Islia Llechid Williams, Imelda Wenzel a Duisi Hughes.

Yna y Fairy Queen Elect (sef Patricia Thomas) a'i Thylwyth Teg, sef Evelyn Pritchard, Barbara Gwen



A dyma lun y Frenhines Nesta yn ei holl ogoniant:

Pugh, Gillian Elizabeth Owen, Sonia Elizabeth Lloyd, Helen Eleri Pritchard a Gillian Williams. Myra Twigge a Barbara June Pickford oedd y *Petal Throwers*, a'r *Banner Bearer* oedd Alun Jones.

Mae un llinell yn cloi'r cyfan: 'Hen Wlad Fy Nhadau ...God Save The Queen'.

I'w barhau

PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa

Llanberis

LL55 4UW

01286 872 606

STEPHEN JONES

TREFNWR

ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA

GWASANAETH PERSONOL

PEDAIR AWR AR HUGAIN

CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Ogwen

Adferiad Corfforol

Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
601902

Eglwys Crist, Glanogwen
Gwasanaethau
Sul cyntaf o'r mis: Cymun Bendigaidd am 8yb
Pob Bore Sul: Cymun Bendigaidd Corawl am 11yb

Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

Anfonwn ein cofion fel arfer at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch adael i'r swyddogion wybod os oes unrhyw un am gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

Diolch am y gefnogaeth i'r Bore Coffi fis Mehefin - gwnaethpwyd elw o £330.

Y digwyddiadau nesaf i godi arian fydd : Noson Caws a Gwin yng Ngwesty'r Douglas nos Wener, Medi 13; Bore Coffi yng Nghefnfaes fore Sadwrn, Hydref 5ed; Te Nadolig yng Ngwesty'r Douglas, Pnawn Gwener, Rhagfyr 7ed, 2-4

YR EGLWYS UNEDIG
Oedfaon
Yn ystod yr wythnosau a aeth heibio, cafwyd oedfaon bendithiol dros ben, gyda chynulleidfaoedd teilwng, er bod amryw byd o aelodau yn methu ymuno â ni yn y gwasanaethau oherwydd amryw resymau. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y rhai sydd yn wael, mewn gwendid, neu'n gaeth i'w cartrefi.



Yr Ysgol Sul
Yn ddiweddar cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i wobrwyo'r plant am ddysgu'r Llafar Cof, ac am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cafwyd datganiad bythgofiadwy o 'Cân Hosanna' - pob un yn morio canu, ac yn chwarae offeryn ar yr un pryd! Dilynwyd hyn gyda the parti iddynt hwy a'r gynulleidfa, a hyfryd oedd cael cymdeithasu yn y festri. Diolch iddynt am roi gwên ar ein hwynebau, a diolch hefyd i'r athrawon a'r rhieni am wneud y trefniadau.

Ar fore Sul, Mehefin 30, aeth criw llawen ar drip i Fferm y Foel, a chafwyd diwrnod hapus - ac addysgiadol - dros ben. Diolch i'r rhai a fu'n trefnu'r cyfan. Hwn oedd penllanw gweithgareddau'r plant, gan na fydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod eto tan fis Medi.

Gardd y Capel
Mae'r ardd bellach yn werth ei gweld, gyda'r llwyni'n ffynnu, a'r gwair yn cael gofal cyson gan aelodau o blith y dynion - lle delfrydol i eistedd, a chael hoe fach o dan gysgod y coed. Mae ein dyled yn fawr i'r criw gweithgar sydd yn gofalu amdani. Hefyd mae'r hysbysfwrdd wedi'i

drwsio, a gobeithiwn yn fawr y caiff lonydd o hyn ymlaen!

Gweithgareddau Amrywiol
Braf yw cael dweud y defnyddir adeiladau'r capel yn gyson gan y gymuned ar gyfer gwahanol weithgareddau. Os hoffech logi ystafell(oedd) ar gyfer achlysur arbennig, neu gyfres o gyfarfodydd, yna cysylltwch â'r Ysgrifennydd: Walter Williams (Ffôn: 01248 601 167) neu drwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Llifogydd
Unwaith eto, fe achosodd y glaw trwm diweddar ddifrod i do'r capel - mae sgaffaldiau i fyny, ac mae gwaith trwsio yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Cydymdeimlad
Collwyd un o'n haelodau mwyaf gwerthfawr ym marwolaeth Mrs Myfanwy Jones, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll. Bu 'Anti Myf' yn hynod o ffyddlon i wahanol weithgareddau'r capel, a mawr yw'r golled ar ei hôl.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Mrs Vera Morgan, Gwyn, Nerys a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Dylan - mab, brawd ac ewythr annwyl iawn yn eu golwg.

Cyhoeddiadau
Gorffennaf
14: Y Parchedig Anna Jane Evans
21: Trefniant Mewnol
28: Y Parchedig Trefor Jones (10)
Mr Donald Pritchard (5)

Awst
4: Dim Oedfa (10)
Y Parchedig Brian Wright (5)

11: Y Parchedig R O Jones
18: Mrs Eirlys Williams
25: Y Parchedig Mererid Mair

Medi
1: Y Parchedig Megan Williams
8: Y Parchedig Eric Jones
15: Gwasanaeth Teuluol (10)
Mr Richard Lloyd Jones (5)

Diolch
Mae Joan Parry, 45 Abercaseg yn dymuno diolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am eu gofal a'r cofion caredig tuag ati yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Priodas
Llongyfarchiadau i Nia Wyn Jones, merch Selwyn a Margaret Jones, Erw Las a David Iorwerth Hughes, mab Terry a Maureen Hughes, Arafon, Mynydd Llandygai ar eu priodas ar Fai 25ain. Priodwyd y ddau yn Eglwys Crist Glanogwen a dathlwyd y briodas yng Ngwesty St George, Llandudno gyda theulu a ffrindiau. Pob hapusrwydd i Nia a David sydd wedi ymgartrefu ym Mhenmaenmawr.

Marathon Llundain
Dyma Llinos Hughes o Ystâd Coetmor a fu'n chwysu chwartiau drwy redeg marathon Llundain yn mis Ebrill. Er hynny rhaid dweud ei bod yn edrych yn hynod o dda wedi rhedeg cymaint o filltiroedd. Dymuna Llinos ddolch i bawb a'i cefnogodd ac am y rhai a'i noddodd i gasglu arian tuag at yr elusennau hyn: Tŷ Gobaith, Mind, Christie Cancer ac Awyr Las. Da iawn ti, Llinos.

Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus i Ceri-Ellen Speddy, Pant Glas, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 23 Mehefin.

Ysbyty
Eto y mis hwn, bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Da deall bod amryw ohonoch yn gwella gartref erbyn hyn. Cofion cynnes atoch i gyd.
Mr Albert Humphreys, Stryd Cefnfaes; Mrs Carys Parry, Glanogwen; Mr Gavin Parry, Rhos y Coed; Mr Pat Sturrs, Ffordd Abercaseg; Mr John Jones,



Abercaseg; Mr Vernon Owen,
Abercaseg; Mrs Rhiannon Evans,
Pant.

Gair o Ddiolch

Dymuna Mrs Helen Roberts,
Ffordd Ffrydlas, ddiolch
yn fawr iawn am yr holl
gardiau, anrhegion a blodau a
dderbyniodd ar achlysur ei phen-
blwydd arbennig ar 18 Mehefin.

Dymuna Mrs Hazel Owen a’r
teulu, Maes Coetmor, ddiolch
yn fawr iawn am bob arwydd o
gydymdeimlad a dderbyniwyd
ganddynt yn eu profedigaeth o
golli Bryan. Diolch am y rhoddion
o £600.00 tuag at NSPCC Cymru.
Diolch hefyd i holl staff Ward
Glaslyn, Ysbyty Gwynedd.

Marw

Mrs Phyllis W. Evans
Ar 20 Mehefin, wedi gofal arbennig
yng Nghartref Gofal Dementia,
Glyn Menai, Treborth, bu farw Mrs
Phyllis W. Evans, gynt o Tegfan,
Erw Las, yn 87 mlwydd oed. Priod
annwyl y diweddar Mr. Tegwyn
Evans, mam a mam yng nghyfraith
i Helen ac Arfon, a nain garedig
i Rhodri, Lois, Rhian a Mathew, a
hen nain i Bleddyn a Llio.

Wedi ei geni ym mhentref
Llanllechid, cafodd ei haddysg
yn ysgolion Rachub a Dyffryn
Ogwen.

Yna gweithio am gyfnod cyn
priodi ac aros yn y dyffryn. Bu’n
cadw siop ddillad a salon trin
gwallt, ac ar ôl ymddeol cafodd
gyfle i ofalu am ei hwyrion a’i
hwyresau. ‘Roedd wrth ei bodd yn
cael sgwrs â phawb. Bu’n aelod
ffyddlon yng nghapel Carmel hyd
nes i’w hiechyd dorri, ac yno, ac
Amlogfa Bangor, y cynhaliwyd
ei hangladd ddydd Mercher,
26 Mehefin. Ei gweinidog, y
Parchedig John Pritchard, oedd
yn gwasanaethu, gyda Mrs
Helen Williams wrth yr organ.
Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu
yn eich profedigaeth.

Mrs Myfanwy Jones
Yn dawel yng Nghartref Plas
Ogwen, gynt o’r Gwernydd, bu
farw Mrs. Myfanwy Jones (Auntie
Myf.) yn 93 mlwydd oed. Priod y
diweddar Mr William Jones, mam
a mam yng nghyfraith Marian a
Merfyn a Gwenda a Brian, nain a
hen nain hoffus i’w hwyrion oll.

Roedd yn aelod selog yng
nghapel Jerusalem, ac yn perthyn
i sawl cymdeithas yn y cylch yn
cynnwys, Clwb y Gerlan, Clwb
Rachub a Sefydliad y Merched
Carneddi.

‘Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i’w
hangladd yn Amlogsgfa Bangor ar
Sadwrn, 29 Mehefin, yn tystio i’w
phoblogrwydd. Gwasanaethwyd
gan y Parchedig Hugh John
Hughes gyda Mrs Minnie Lewis
wrth yr organ. Cydymdeimlwn â
chwi fel teulu i gyd.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ddydd Mercher, 3 Gorffennaf,
aeth yr aelodau a chyfeillion ar
wibdaith i Skipton. Torrwyd y
siwrnai i gael coffi yn Colne ar
y ffordd yno. Cafwyd diwrnod
hynod o braf, a phawb wedi
mwynhau. Diolchwyd am y
trefniadau gan ein cadeirydd, Mrs
Rhiannon Efans.

Bydd y wibdaith nesaf ddydd
Mercher, 28 Awst, felly cofiwch
roi eich enwau ar y daflen yng
Ngorffwysfan, os gwelwch yn dda.
Hefyd, bydd y trysorydd yn falch
iawn o dderbyn eich tâl aelodaeth
o £10.00 yn ystod mis Awst.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Nos Iau, 25 Gorffennaf, am 7 o’r
gloch yng nghapel yr ysbyty,
cynhelir noson yng nghwmni
Elvis (Y Parchedig Wynne
Roberts). Gwneir casgliad ar y
diwedd tuag at waith y Cyfeillion.

Ar 29 Awst eleni, bydd
Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn
dathlu eu 50fed pen-blwydd.
Llongyfarchiadau calonnog, a
diolch iddynt am eu holl waith yn
codi miloedd ar filoedd o bunnau
dros y blynyddoedd.

Wythnos Cymorth Cristnogol
12-18 Mai 2019 – Bethesda a’r
Cylch

“Dylai pob mam gael byw”
– geiriau Jebbeh Konnah tra
oedd hi’n wyth mis yn feichiog,
a neges Wythnos Cymorth
Cristnogol 2019. Roedd y
ffocws ar Sierra Leone sydd y
lle peryclaf yn y byd i ddod yn
fam. Mae deg o ferched yn marw
bob dydd wrth roi genedigaeth;
roedd Fatmatta, chwaer Jebbeh,
yn un ohonynt.

Hoffem ddiolch yn fawr i
bawb a gyfrannodd at yr achos
eleni; llwyddodd yr ardal i godi

£3,308.54 gyda bore coffi ddydd
Sadwrn 11eg Mai, gwasanaeth
nos Sul 12fed Mai, rhoddion gan
eglwysi’r ardal ac, yn arbennig, y
casgliad o ddrws i ddrws.

Gweler y manylion isod:
Bore Coffi yng Nghefnfaes:
£320.00
Gwasanaeth yng Nghapel
Jerusalem £142.00
Rhoddion:
Eglwys St Tegai, Llandygái -
£50.00
Eglwys Annibynnol Amana,
Mynydd Llandygái - £60.00
Eglwys Fethodistaidd Shiloh,
Tregarth - £50.00
Eglwys St Mair, Tregarth - £50.00
Eglwys St Ann a St Mair, Mynydd
Llandygái - £10.00
Casgliad o ddrws i ddrws (gydag
enwau’r casglwyr)
Bethesda - £1,171.57
(Ian Hughes, Emyr a Heulwen
Roberts, Walter Williams,
Godfrey Northam,
Gwenno Evans, Janet Hughes,
Barbara Conlan, Jennifer Roberts,
Blodwen
Dignam, Rhian Roberts, Lester
Bath, Lyn Morris, Rhiannon Ifans,
Luned

Edwards, Barbara Owen,
Angharad Huws)
Gerlan - £200.03
(Ann Williams, Neville Hughes,
Sandra Williams, Davina)
Llandygái/Bryn - £276.33
(Nerys Jones)
Rachub - £214.64
(Helen Williams)
Talybont - £360.97
(Barbara Jones, Jean Hughes,
Catrin Hobson)
Tregarth - £403.00
(Dafydd Roberts, Rosemary
Williams, Angharad Williams,
Fiona Williams,
Valerie Hayward, Beryl Hughes,
Carys Williams)

Yn anffodus iawn, oherwydd
camdealltwriaeth ynghylch y
trefniadau eleni, ni
chafodd pawb, sydd wedi bod
yn ddigon caredig i helpu yn y
gorffennol, eu
cysylltu am y casgliad drws i
ddrws. Hoffwn ymddiheuro’n
llaes i bob un
ohonoch chi.

Lester Bath
Trysorydd Wythnos Cymorth
Cristnogol Bethesda a’r Cylch.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk









MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY





Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 2019**
- Medi**
- 07 Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
 - 14 Cefnfaes – NSPCC
 - 21 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai, Llandygai.
 - 28 Cefnfaes – Plaid Cymru.
- Hydref**
- 05 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
 - 12 Cefnfaes – Caban Gerlan.
 - 19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
 - 26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
- Tachwedd**
- 02 Cefnfaes – Clwb Camera.
 - 09 Festri Jerusalem – Gofal Dementia
 - 16 Cefnfaes – Gorffwysfan.
 - 23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
 - 30 Cefnfaes – Plaid Lafur.
- Rhagfyr**
- 07 Cefnfaes – Ysgol Sul Jerusalem.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

- Awst 10fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
- Medi 14eg**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
- Hydref 12fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
- Bwydydd, Crefftau, Lleol**
- www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
GORFFENNAF 23 a 30
MEDI 10 a 24
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CRONFA
TRACEY SMITH**
SADWRN, 7 MEDI
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
NSPCC**
SADWRN, 14 MEDI
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EGLWYS SANT
TEGAI**
SADWRN, 21 MEDI
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
PLAID CYMRU**
SADWRN, 28 MEDI
10.00 – 12.00

Grŵp Arlunio Glasinfryn

**ARDDANGOSFA
ARLUNIO**
CANOLFAN GLASINFRYN
14 – 17 AWST
10YB – 4YP
MYNEDIAD AM DDIM

**Atgofion
ar Gân**

Ystafell Gymunedol
Canolfan Feddygol
Bethesda

19 a 26 Gorffennaf
1.15 – 2.30yp

Calendr Llais Ogwan 2020

Lluniau ar gyfer Calendr 2020 i mewn cyn **DDIWEDD GORFFENNAF 2019**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

Lluniau mewn fformat tirlun

Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt a nodi lle y cymerwyd y llun.
Gallwch hefyd roi teitl i'r llun.

Trwy ebost at: calendr2020@outlook.com

Neu (print neu ar ddisg)

Calendr Llais Ogwan
Swyddfa Ogwen
26 Stryd Fawr
Bethesda
LL57 3AE

Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?



Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái ☎ 600744

Clwb Ieuenctid

Bu aelodau'r Clwb am drip diwedd tymor i "Flip Out" yng Nghaer, ac fe gafwyd amser da iawn.
Mae'r Clwb wedi cau rŵan hyd at fis Medi. Diolch i Dana a Corina am wirfoddoli yn y Clwb bob wythnos. Hefyd, diolch i Lynda, yr arweinydd, am ei gwaith caled.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu David ac Eimir Frodsham yn eu profedigaeth. Collodd David ei frawd yng nghyfraith yn Ne Affrica. Rydym yn meddwl amdanoch!

Y Neuadd

Ni chynhelir y clybiau yn ystod mis Awst. Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Gorff. 28ain: 9.30 y.b. Cymun Bendigaidd
Awst 4ydd: 9.30 y.b. Gwasanaeth Teuluol
Awst 11eg: 9.30 y.b. Cymun Bendigaidd
Awst 18fed: 9.30 y.b. Boreol Weddi
Awst 25ain: 11.00 y.b. Cymun Bendigaidd - Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Llandygái.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cysylltwch ag un o swyddogion yr Eglwys os ydych yn dymuno cael ymweliad neu am dderbyn Cymun cartref.

FFAIR HAF YR EGLWYS

Sadwrn, 20fed Gorffennaf
11 - 2 p.m.
yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio ynghyd ag amrywiaeth o stondinau a gemau i blant.

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Ysgol Abercaseg

Diwrnod Trosglwyddo

Treuliodd y plant fydd yn dechrau yn y meithrin ym mis Medi fore yn yr ysgol ac aeth plant Bl 2 i Ysgol Pen y bryn am y diwrnod. Mae'n chwith meddwl amdanynt yn gadael yr ysgol ddiwedd y tymor gan fod pob un ohonynt wedi cyfrannu i fywyd yr ysgol. Pob hwyl iddynt ym Mlwyddyn 3.

Sioe Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gwaith celf Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Bu nifer o'r plant ymhob dosbarth yn llwyddiannus.

Mabolgampau



Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol y mis yma a braf oedd gweld y cae yn orlawn o rieni yn mwynhau gwyllo eu plant yn cystadlu. Er nad oedd pawb yn fuddugol roedd yr holl blant yn mwynhau, a da iawn nhw am geisio'u gorau glas. Diolch mawr i Tesco a Morrisons am gyfrannu bwydydd a diodydd tuag at yr egwyl.

Paid Cyffwrdd, Dweud

Cafodd disgyblion yr ysgol fantais o sesiwn Paid Cyffwrdd, Dweud oedd yn

rhoi gwybodaeth iddynt am wrthrychau na ddylid eu cyffwrdd, a phwysigrwydd dweud wrth oedolyn os oeddent yn dod ar draws unrhyw beth anghyfarwydd. Derbyniwyd cyfleoedd i drafod gwahanol wrthrychau a'u tebygrwydd i wrthrychau cyfarwydd. Yn ogystal â hyn trafodwyd y pwysigrwydd o beidio â chyffwrdd ac i ddweud wrth oedolyn yn syth.

Cadw'n ddiogel yn yr haul

Rydym wedi manteisio ar y cyfle yn ystod y tywydd poeth i dderbyn cyflwyniad gan yr elusen Tenovus er mwyn ein hatgoffa o sut i gadw'n ddiogel yn yr haul. Cafodd y plant gyfleoedd i ddefnyddio offer arbennig i edrych ar y croen yn ogystal â dewis gwisg addas ar gyfer chwarae allan yn yr haul. Cofiwch roi eli haul, gwisgo het haul a sbectol haul ac yfed digon o ddŵr yn ystod y tywydd braf.

Cerdded i'r ysgol

Derbyniwyd tystysgrif Efydd yn dilyn 'Wythnos Genedlaethol Cerdded i'r Ysgol'. Llwyddodd rhwng 50% a 65% o blant i gerdded, beicio neu sgwera i'r ysgol yn ystod yr wythnos. Da iawn pawb!

Ocsiwn Cyfeillion

Diolch mawr i'r cyfeillion am eu holl waith caled yn trefnu a chynnal ocsiwn addewidion ar gyfer Abercaseg a Phen-y-bryn. Rydym yn lwcus iawn o'u hymroddiad a'u cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Ymweliad RSPB

Cafodd blant blwyddyn un a dau ymweld â gwarchodfa RSPB yng Nghonwy fel taith addysgiadol i gyd-fynd â'r thema 'Yn yr Ardd'. Cafodd y plant gyfle i chwilio am greaduriaid gyda rhwyd yn y pwll, yn ogystal â chwilio am fân greaduriaid yn yr ardd. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau, a chafodd y plant eu hysgogi i fod eisiau dysgu mwy yn yr ysgol.



Wärme HEATING

DOSBARTHWYR LLEOL AR GYFER
GWRESOGYDDION STORIO
EFFEITHLON O'R ALMAEN



YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD

RHEIDDIADURON TRYDAN



Y datrysiaid perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi



- Gwresogi yn sydyn
- Rhaglennu 24/7
- Perfformiad uchel a Glân
- Rheoli pob ystafell yn annibynnol
- Yn gydnaws ag Economy 7
- Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
- Yn cydymffurfio â Lot20
- Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig

RHATACH NAG OLEW AC LPG

CYNNIG Y **GWANWYN** - 10%
I FFWRDD WRTH NODI PAPUR BRO



ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC
AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA

01248 371 730 | 07845 034 622 | www.warmeheating.co.uk



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Mae'n aros ynghanol Aberystwyth (4)
- 4 Llygadu'n ofalus (5)
- 8 Boddran (8)
- 9 Cweir (tafodieithol) (4)
- 10 I'w gardd flêr, mae hwn yn hanfodol i'r planhigion dyfu (6)
- 11 Lle'r eog i'w gadw'n ffres a bwytadwy (6)
- 12 Nid yn ysbeidiol na diddiwedd (7)
- 16 Torrwn y dorth falle tu mewn yn ofalus (6)
- 18 "A ----- heb ei chael hi" meddai englyn Robert ap Gwilym Ddu wedi marw ei ferch (6)
- 20 Hogyn o'r De (4)
- 21 Dinasyddion gwlad o'r Dwyrain Canol (8)
- 22 "Y ----- Yn Ein Bywyd", straeon byrion C.P. (1964)
- 23 Tynnu maeth o'r testun (4)

I LAWR


- 2 Aiff ar blanhigion yn daclus i'w clymu'n ddiogel rhag y gwynt (5)
- 3 Un a'i olwg tua'r ffurfafen pan fo'r nos yn glir (7)
- 4 Clo du wedi torri, ond yn hawdd ei gario (5)
- 5 Yn ei bryd (7)
- 6 Rhyw ddeg o chwith ar ôl un i le diarffordd (6)
- 7 Diwedd yr anffawd wrth ben pella'r llwybr efo fy mherthynas agosaf (5)
- 12 Dyma yw 7 I Lawr i'w rieni (7)
- 13 Chwant a blys am damaid (7)
- 14 'Ar lan y môr' y mae un, 'lle bûm yn siarad gair â'm cariad' (6)
- 15 Moddion meddygol (tafodieithol) (5)
- 17 Dau i'n priodas, dyna wna gyswllt clos (5)
- 19 Ymadrodd, dim o'i ddrysu a'i gyfieithu i iaith arall (5)

ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2019

- AR DRAWS 1 Cyffro, 4 Gomer, 7 Trasiedi, 8 Wylo, 9 Opera Sebon, 12 Coroni, 14 Utgorn, 15 Colomennod, 18 Cwta, 19 Estyniad, 21 Am Ddim, 22 Mesur

- I LAWR 1 Cerddorol, 2 Ffys/Ffws, 3 Ofera, 4 Gwireddu, 5 Mowth/Mawth Organ, 6 Rali, 10 Economaidd, 11 Drudfawr, 13 Isotherm, 16 Eitem, 17 Cwla, 20 Nes

Dim ond nifer fechan o gamgymeriadau a gafwyd y tro yma, sef 3 I Lawr 'Oddefa' yn lle 'Ofera', 1 Ar Draws 'Cwffio' yn lle 'Cyffro' a 5 I Lawr 'Mewn Organ' yn hytrach na 'Mowth Organ' (Roedd 'Mawth Organ' yn dderbyniol hefyd).



Gafwyd croesair cywir gan bob un o'r canlynol. Llongyfarchiadau i chi:

Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Sian Beidas, Gareth Oliver, Tregarth; Adrian Poulton, Pentir; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Jean Hughes, Talybont; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Jones, Llanfairpwll; Dilys Parry, Rhiwlas; Myfanwy Jones, Gaerwen; Doris Parry, Bangor; John Huw Evans, Llanberis; Mair Williams, Gill King, Mynydd Llandygai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; J.R. ac M.A. Jones, Rachub;

Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams; Ann Morris, Gwen Evans, Bethesda. Pob clod y mis yma i'r enillydd, sef Sian Beidas, Hyfrydle, Lôn y Wern, Tregarth, Bangor, LL57 4BA

Y 'Llais' ar ei wyliau yn Awst, felly ym Medi y bydd y croesair nesaf. Mwynhewch y seibiant, gan obeithio y cawn ail-afael ynddi y pryd hynny.

Atebion erbyn 6ed Medi, 2019 fan bellaf i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD. (Peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr !)

Atebion erbyn 6^{ed} Medi i 'Croesair Gorffennaf'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Nyth y Gân

Paentiad o Owain Glyn Dŵr

Dyn hynod yn ein hanes a'n gyrrodd
I guro sawl gormes;
Ef yn y llun a fu'n lles
I'n rhyddid er nas rhoddes.



Daeare Llwynog

Treulia'r dydd yn ei guddle, yn aros
Am hir mewn cadarnle;
Yn y cwm mor llwm yw'r lle
I'r aflan gael cartrefle.

Eiddew

Bu'n cydio mewn bôn coeden, a dringo
Hyd rengoedd sawl cangen;
Daeth o'r pridd yn gaeth i'r pren,
Yn daer i dwyllo derwen.

Cwmnïaeth

O gylch y bwrdd fe gawsant gwrdd
Â rhai o griw ers talwm,
A'r sgwrs arweiniodd fel 'tai i fod
I ddatod ambell gwlwm.

Y geiriau ddaeth yn llawn o faeth
O enau y rhai hynny
Am hanes o'r amseroedd gynt
A'r helynt fu'n eu synnu.

Braf iawn fu sôn am rai o Fôn
A'r cymeriadau yno,
A chlywed beth yr oeddynt hwy
Mewn llawer plwy'n ei gofio.

O'r ymgom iach daeth deigryn bach
I'r sawl oedd yno'n cofio,
Ac yna, dro, bu codi gwên
Drwy stori hen llawn cyffro.

Dafydd Morris

Crëyr Glas

Y crychydd yn nydd ei nerth, â'i osgo
Ddiysgog mor brydferth;
Henwr craff, mor ddidrafferth
Y saif uwch y ceunant serth.



Jac-do

Mae'i ddwy adain yn sgleinio, a'i lygaid
Golygus yn pefrio;
Edn cyfrwysgar fel cadno
Â'i fryd ar sborion y fro.

Haf yn y Carneddau

Mewn heddw saif y Carneddau
A gwynt ar eu grudd yn gwau,
A'i fysedd tangnefeddus
Drwy walltiau hir llwyni'r llus.
Defod hen yw dyfod haf
O hau hyd awr cynheuaf,
A daw o gynefin dir
Lef unig y gyflinir,
A'i goslef yn dolefain
Yr ingol, nosweithiol sain;
Uwchlaw'r mawn, uwchlaw'r meini,
Unawd hen ei molawd hi.
Natur sydd ar ei phuraf
Yn swyn a rhin glesni'r haf;
Tymhorol yw'r tw mirain
Yn llafnau y caeau cain,
A moliant yw'r tyfiant teg,
Unrhyw â gras Ei anrheg.

Goronwy Wyn Owen

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Eglwys St Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Mehefin 2019

1af Rhif 21 – Clive Williams, Rhiwlas
2ail Rhif 1 – Anya Jones, Caernarfon
3ydd Rhif 28 – Dafydd Roberts, Y Bala

Te Mefus

Prynhawn Sadwrn, 27 Gorffennaf am 3yh
bydd Te Mefus yn cael ei gynnal yn Gwauny-
dd, 4 Hafod Lon, Rhiwlas er bydd Eglwys St.
Cedol. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

Datganiadau Cerddorol

Bydd noson o Gerddoriaeth yn cael ei
chynnal yn Eglwys St. Cedol, Pentir Nos Sad-
wrn 17 Awst am 7yh. Gydag eitemau i'n did-
danu gan artistiaid lleol yn ystod y noson, yn
gerddorol a lleisiol. Bydd lluniaeth ysgafn ar
ddiwedd y noson. Mae croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Anfonwn longyfarchiadau at ein ficer, Y
Parchedig Christina McCrea oedd yn dath-
lu 10 mlynedd ers ei hordinasïwn ddiwedd
Mehefin. Llongyfarchiadau cynnes iawn,
Christina.

Cyfarchion

Anfonwn ein cofion at y rhai o'n mysg sydd
ddim yn dda eu hiechyd, gan ddymuno'n
dda iddynt oll.

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cef-
nfaes, Bethesda ar 22 Mehefin. Roedd yn fore
hynod o lwyddiannus. Diolch i chi, drigolion
Dyffryn Ogwen, am eich cefnogaeth.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb

21.7.19 Cymun Bendigaid
28.7.19 Boreol Weddi
4.8.19 Cymun Pawb
11.8.19 Boreol Weddi
18.8.19 Cymun Bendigaid
25.8.19 Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y
gwasanaethau.


I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Byw yn fy Nghroen

Mae cyfrol a gyhoeddir yr wythnos hon yn ceisio torri'r tabŵ o siarad yn onest ac yn ddewr am eu cyflyrau hir dymor, boed hynny'n salwch corfforol neu feddyliol. Mae Byw yn fy Nghroen (Y Lolfa) yn cynnig cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sydd yn ymdopi â'u brwydrau eu hunain yn ogystal â llenwi'r bwlch yng ngwybodaeth y cyhoedd yn gyffredinol am gyflyrau fel epilepsi, acne, clefyd y siwgr, OCD a chaner y gwaed.

Mae Byw yn fy Nghroen yn cynnwys ymateb 12 o bobl ifanc, rhwng 10 a 26 oed, sydd wedi bod trwy fwy na'u siâr o frwydro a dioddef, a'r ffordd y maent yn ymdopi mewn ffordd bositif ac urddasol. Golygwyd y gyfrol gan Sioned Erin Hughes o Ben Llŷn, sy'n dioddef o gyflwr prin Myasthenia Gravis.

Yn rhagair y gyfrol, mae Sioned Erin yn nodi bod salwch unigolion, yn enwedig yn ystod plentyndod, yn effeithio ar y rhwydwaith o deulu a ffrindiau:



“Mae salwch, afiechyd, cyflwr – diffinia fel y mynni – yn medru creu'r llanast mwyaf o dy fywyd di. Ac nid o dy fywyd di yn unig, oherwydd mae'r bobl agosaf at y sawl sydd yn dioddef yn ddiau am deimlo'r difrod yn eu bywydau hwythau hefyd.”

Fel gyda salwch meddwl a galar, mae tabŵ yn perthyn i gyflyrau hir dymor corfforol a meddyliol

gyda nifer o'r cyflyrau hefyd yn anweladwy, a symptomau a difrifoldeb yn newid o ddydd i ddydd.

Ceir 12 stori hollol unigryw a dirdynnod yn Byw yn fy Nghroen ond y brif thema sy'n gwau drwy'r hanesion i gyd ydi gobaith.

Adroddwyd yn y wasg y llynedd i gyflwr Sioned Erin Hughes ei hatal rhag mynychu'r seremoni wobrwyo ar ôl iddi ennill Coron Eisteddfod yr Urdd 2018, ac mae hithau yn cymryd golwg bositif ar ei chyflwr, cyflwr sydd yn golygu ei bod hi'n methu â gwneud dim drosti ei hun am adegau hir o amser. Dywed: “Wna i ddim digio gormod at y frwydr felly, oherwydd gwn fod y rhannau gorau ohonof i wedi deillio o'i goroesi hi, ac nid o'i hosgoi.”

Mae Liwsi Mô (10 oed), o Ddyffryn Ogwen, sydd yn cael hyd at 30 'blanc' bob dydd gyda'r cyflwr epilepsi, yn gorffen ei ysgrif gyda'r geiriau: “Er fy 'mod i efo epilepsi, dwi'n gweld fy hun yn hogan lwcus iawn, a dydi epilepsi ddim yn stopio fi rhag gwneud uffar o ddim byd!”

Mae George Bowen-Phillips (17 oed), o Sir Gaerfyrddin, sy'n dioddef o spina bifida yn dweud: “[y] diwrnodau heriol yw'r diwrnodau sydd yn fy ngwneud i'n benderfynol, ac felly'n fy ngwneud i'r person ydw i.”

Mae Mared Jarman (24 oed), sy'n byw yng Nghaerdydd ac yn dioddef o gyflwr Stargardtst yn dweud: “Peidiwch â theimlo trueni drosta i, oherwydd dyw gwerth bywyd ddim yn bodoli yn ein golwg, ond yn hytrach yn bodoli ynddon ni fel pobl; yn ein gweithredoedd, ym mywyd ein hunan, ac yn sut yr ydyn ni'n penderfynu byw ynddo.”

Mae'r gyfrol yn trafod bwlio, colli hunanhyder, galar amrwd, gorfod creu amserlen bywyd o amgylch y salwch, adnabod cyraeddiadau salwch, unigrwydd, rhagfarn a chymdeithas yn cwestiynu'r cyflwr, yn ogystal ag esbonio triniaethau difrifol mewn ysbytai, i enwi ond ychydig.

Enillwyr Cenedlaethol o'n Hardal Ni

Dyma aelodau Parti Cerdd Dant Adran Bro Dyffryn Ogwen a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd fis Mai.

Criw o blant ardal Bethesda ydi Adran Bro Dyffryn Ogwen, sy'n dod at ei gilydd ar nos Sul i ymarfer at y Steddfod o dan arweiniad Angharad Llwyd Beech a Hywel Parry, gyda Jane Parry yn drefnydd penigamp ar bawb.

Roedden nhw'n cystadlu mewn dwy gystadleuaeth yng Nghaerdydd, y parti unsain i Adrannau, a'r parti cerdd dant. Fe ganodd y plant yn wych, a llwyddo i ddod i'r brig

drwy Gymru gyda'r cerdd dant.

Hoffai'r Adran ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi eu cefnogi ar hyd y daith, ac i Gapel Jerusalem am adael iddyn nhw ymarfer yno. Mae'r plant wedi cael cyfle bythgofiadwy, ac yn edrych ymlaen at gael dathlu eu llwyddiant mewn parti mawr yn fuan!! Bydd yr Adran yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer Steddfod 2020 yn Ninbych!

Rydym yn ffodus iawn fel ardal fod rhai mor ddawnus yn fodlon rhoi o'u hamser a'u hegni i hyfforddi ein plant a'n pobl ifanc i safon mor uchel.



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Penblwyddi arbennig
Llongyfarchiadau calonnog i Harry Eardley, 4 Cae Bach, a ddathlodd ei ben-blwydd yn bedwar ugain ar 13eg o Fehefin. Iechyd da a phob bendith, Harry!

Ar 27ain. o Orffennaf, bydd Abi Lloyd Williams, 12 Dolhelyg, yn 18oed. Gan mai hwn yw’r ‘Llais Ogwan’ diwethaf tan mis Medi, Abi, achubwn ar y cyfle i’th longyfarch a dymuno pob llwyddiant iti i’r dyfodol .

Yn yr un modd, estynnwn ddymuniadau gorau i bawb sy’n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod gwyliau’r haf.

Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau yr un mor ddiffuant i Dylan, 13 Dolhelyg, a fu’n llwyddiannus yn ei Brawf Gyrru yr wythnos o’r blaen. Yn ôl yr hyn rydan ni’n weld, mae o’n yrrwr gofalus iawn. Dalia ati, Dylan! Dymunwn flynyddoedd lawer o yrru diogel a dedwydd iti.

Llwyddiant mewn arholiad
Llongyfarchiadau mawr i Judy, Tŷ Cerrig, sydd wedi llwyddo’n ardderchog mewn arholiad Cymorth Cyntaf. Derbyniodd ganmoliaeth uchel iawn am ei gwaith. Mae pawb yn falch iawn ohonot, Judy.

A llongyfarchiadau hefyd i Alys Haf, 36 Bro Emrys, ar ennill gradd Anrhydedd (Dosbarth Cyntaf) yn y Gyfraith o Goleg Bangor. Alys, rwy’t ti wedi gwneud yn wych. Deallwn iti sicrhau Cytundeb Hyfforddi gyda chwmni o Gyfreithwyr, ac y byddi’n cychwyn astudio ar gyfer dy Erthyglau yng Nghaer ym mis Medi. Pob bendith a llwyddiant i’r dyfodol. Edrychwn ymlaen at glywed am lwyddiannau pobl ifainc eraill o’r ardal yn eu gwahanol feysydd. Cofiwch roi gwybod inni.

Ac ym maes Athletau!
Digwydd clicio ar ‘Trydar’ wnes i ryw fin nos a gweld fideo, a anfonwyd gan riant, o Dîm Cyfnewid 4x100, Ysgol Tryfan, a ddaeth i’r brig ym mabolgampau Ysgolion Uwchradd Eryri. Pwy oedd yn rhedeg fel sgwarnog o gwmpas y trac ond Corey, 69. Bro Emrys. Bu’n fuddugol, hefyd, ar y ras 200 m. ac ar daflu pwysau. Tipyn o gamp, ddywedwn i. Da iawn chdi, Corey, dalia ati, a phob lwc yn Aberhonddu, lle byddi’n cystadlu yn erbyn holl ysgolion uwchradd Cymru!
Mae nifer dda o blant Talybont yn cymryd rhan ym mabolgampau eu gwahanol ysgolion, ac yn ymarfer ar eu cyfer yn y cae chwarae

gyda’r nos. Dymunwn bob llwyddiant a mwynhad iddynt i gyd.

Garddio a Mwy
Braf iawn oedd gweld Anita, Ty’n Hendre, ar raglen S4C ‘Garddio a Mwy’ y mis diwethaf. Roedd hi’n cael cymorth gan Sioned i sefydlu border ddeniadol wrth ei drws ffrynt. Mi allech ddychmygu bod y ddwy yn cydweithio’n rheolaidd, gan mor gartrefol oedd Anita o flaen y camera. Edrychwn ymlaen at bicio i Dy’n Hendre rywdro yn y dyfodol i weld y border yn ei ogoniant.
Criw arall sydd yr un mor gartrefol o flaen y camera yw teulu Glan Môr Isaf. Dychwelodd Iwan, cyd-gyflwynydd ‘Garddio a Mwy’, i’r fferm i weld sut mae’r planhigion a gawsant ganddo yn dod ymlaen. Cafodd ei blesio’n arw gan frwdfrydedd a diddordeb yr hogiau yn y prosiect. Dwn i ddim am ‘Garddio a Mwy’, ond mae rhai o erddi Talybont yn fôr o liw ac yn wledd i’r llygad ar hyn o bryd, er gwaethaf stranciau’r tywydd. Mae’n codi calon rhywun yn arw iawn.

Brysia wella!
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Rita Thomas, Bryn Celyn, sydd wedi dod adref ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Cydymdeimlad
Cydyndeimlwn yn ddwys iawn â Thelma a Ron Williams a’r teulu, 67 Bro Emrys. Bu farw David, brawd Thelma, yng Nghaergybi y mis diwethaf, gwt a chwe mis ar ôl iddo golli ei wraig.

Y Llyfrgell Deithiol
Ar ran y pedwar ohonom (a dim ond pedwar o’r pentra i gyd, cofiwch) sy’n defnyddio’r Llyfrgell Deithiol, hoffwn apelio am fwy o gefnogaeth.
Mae’r fan yn galw’n fisol yn Nhalybont tua deg o’r gloch ar ddydd Mercher, ac yn aros y tu allan i rif 2 Cae Gwigin am ryw hanner awr. Ar fore Mercher, Awst 17eg fydd yr ymweliad nesaf. Mae Wil, y Llyfrgellydd, y tu hwnt o glên a chymwynasgar. Does dim byd yn ormod o drafferth ganddo, ac mae’n cario stoc eang iawn o lyfrau Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â nifer dda o rai print bras. Ofnwn mai colli’r gwasanaeth gwerthfawr hwn fydd ein hanes, oni bai inni wneud mwy o ddefnydd ohono. Beth amdani, bobl Talybont? Chwadal y Sais, “Use it or lose it”

Eglwys St Cross
Te Mefus
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi’r Te Mefus llwyddiannus a gynhaliwyd yn Ysgoldy Maes y Groes, bnawn Sadwrn, 22 Mehefin. Diolch hefyd i’n haelodau am eu gwaith a’u cyfraniadau!
Garddwest
Diolch i bawb wnaeth ddod i’r Arddwest

yng ngerddi Ficerdy Pentir ddydd Sadwrn 13eg. Braf gweld pobl yn dod at ei gilydd i gymdeithasu a chefnogi achos da.

Gwasanaethau’r Sul
Gorffennaf:
21ain - 9.45
28ain - 11.00

Awst:
4ydd - 11.00
11eg - 11.00
18fed - 9.45
25ain - *DIM* gwasanaeth yn St Cross, ond gwasanaeth ar y cyd yn eglwys St Tegai lle byddwn yn rhoi diolch i’r Athro Ian Russell am ei holl waith yn ein plith. Mae Ian yn ymddeol ar ôl 10 mlynedd fel Darllenydd Lleyg, ac estynnwn ein dymuniadau gorau iddo fo a’i wraig, Daphne.

Medi:
1af - 11.00
8fed - 11.00
15fed - 11.00 - Diolchgarwch, a dathlu 5 mlynedd ers sefydlu Ardal Weinidogaeth Bro Ogwen. Gwasanaeth ar y cyd i’r chwech eglwys Bro Ogwen
22ain -11.00
29ain - Diolchgarwch Gelli - Gwasanaeth ar y cyd, amser i’w gadarnhau.

Gweithgareddau eraill:
Dydd Sadwrn, Medi 14eg, 4.30 p.m.: BBQ yn Ysgoldy Maes-y-Groes, Tal-y-bont

Capel Bethlehem
Oedfaon
Gorffennaf 21: Parchg. Dafydd Job.
Gorffennaf 28: Parchg. Eifion Wyn Williams.

Awst: DIM OEDFAON
Medi 01: Oedfa yng ngofal yr aelodau.
Medi 08: Gweinidog.
Medi 15: Parchg. Cledwyn Williams.
Medi 22: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb. Ysgol Sul yn ail-agor ym mis Medi. Croeso i aelodau newydd.

Hwyl Ysgolion Sul
Roedd hi’n braf iawn y tu allan fore Sul, 23 Mehefin! Roedd hi’n braf iawn y tu fewn hefyd, gyda festri Bethlehem Talybont yn llawn bwrlwm! Rhyw 25 o blant ysgolion Sul Carmel, Llanllechid a Bethlehem oedd wedi ymuno â’i gilydd i fwynhau bore o hwyl wrth weithio a chwarae. Yn dilyn eu gwaith arlunio, lliwio ac ati, aeth y plant allan i’r cae chwarae lleol cyn dychwelyd i’r festri i fwynhau te parti. Diweddwyd y bore gyda phawb mewn hwyliau da wrth ganu i gyfeiliant y gitâr cyn mynd adref! Bore gwerth chweil. Diolch i bawb fu ynglŷn â’r achlysur!



Criw hapus o blant Carmel a Bethlehem yng nghae chwarae Talybont.

Medalau i ddwy chwaer
Mae Poppy a Daisy yn aelodau gweithgar a ffyddlon iawn o Ysgol Sul Bethlehem, ond mae ganddynt ddoniau eraill! Dyma lun o'r ddwy yn dangos medalau a gyflwynwyd iddynt mewn cystadlaethau gymnasteg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr !



Bwrlwm Bethlehem
Daeth ein tymor i ben gyda swper yn Nhafarn Four Crosses, Porthaethwy. A dyna gau pen y mwdwl ar ein "byrlymu" tan ddechrau Medi. Gwelwn bawb bryd hynny!

Te Mefus
£614.00 oedd yr elw ardderchog a wnaed yn ein Te Mefus blyneddol a gynhaliwyd eleni nos Fercher, 3 Gorffennaf. Diolch i bawb o drigolion Talybont a'r cyffiniau am eu cefnogaeth wych unwaith eto!



Chaat Cyw Iâr

- Cynhwysion**
- 1½ pwys o frest cyw iâr.
 - 1 llwy de o halen.
 - 2-3 ewin o arleg (wedi eu malu'n fân).
 - Ychydig o olew i ffrio.
 - 1½ llwy de o goriander (powdr)
 - ¼ llwy de o dyrmerig
 - ½ llwy de o bowdr chili.
 - 1½ llwy fawr o sudd lemwn.
 - 2 lwy fawr o goriander ffres wedi ei falu'n fân.

Dull
Golchwch y cyw iâr, ei sychu efo papur cegin, a thorri'r cig yn sgwariau modfedd.

Malwch y garleg yn fân efo'r halen nes eu bod yn stwnsh.

Cynheswch yr olew mewn papell ffrio ar wres canolig (padell drom fyddai orau).

Ffriwch y stwnsh yn ysgafn nes ei fod yn dechrau brownio.

Ychwanegwch y cig fesul dipyn a'i ffrio am 6-7 munud (gwelw ei wneud mewn 2-3 llwyth rhag i'r cig fynd yn rhy wlyb), gan droi'r cig wrth iddo ffrio.

Ar ôl eu ffrio, rhowch y llwythi cig yn eu tro mewn dysgl wrth ymyl.

Wedyn, rhowch y cig i gyd yn ôl yn y badell.

Ychwanegwch y powdrau i gyd, a'u ffrio am 3-4 munud gan ei droi efo llwy bren.

Tynnwch o oddi ar y gwres ac ychwanegu'r sudd a'r dail coriander.

Mae'n dda iawn efo salad

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Owen's

Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475

www.owenswales.co.uk

Egwyd preswyl dros nos
Egwyd dros nos efo tsaliu
Gwasanaeth Cofrestru
Gweithgareddau
Gwirfoddoli

Amser ni

A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?

NEU

A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?

(01286) 674 686

AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Na i Faw Cwn! - Cymuned Talybont yn Ymuno â'r Ymgyrch

Mae preswylwyr pentref Talybont wedi dewis ymateb i fater sy'n achosi pryder yn eu cymuned drwy ymgyrch bosteri. Roedd trigolion lleol wedi cael digon o'r lleiafrif o berchnogion cŵn nad oedd yn glanhau ar ôl eu anifeiliaid anwes mewn mannau cyhoeddus, ac felly fe benderfynson nhw daclo'r broblem yn uniongyrchol.

Mae'r ymgyrch hon i godi ymwybyddiaeth wedi bod yn weithredol mewn cymunedau eraill yng Ngwynedd yn ddiweddar, gyda nifer o gynghorwyr lleol yn arwain yr ymgyrchoedd. Roedd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Arllechwedd, yn awyddus i ymateb i breswylwyr Talybont ac fe ymunodd â Julian Johnson sydd hefyd yn gwirfoddoli i gadw'r gymuned yn lân a thaclus.

Cysylltodd y Cynghorydd Meurig a Mr Johnson gyda Jonathan Neale, swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, ac fe ddaru nhw i gyd cyfarfod yn y pentref i drafod yr opsiynau. Dewiswyd yr arwyddion coch trawiadol "YN Y BIN!" i gyfleu'r neges mewn modd clir a phendant i'r rhai sy'n gyfrifol. Gyda chefnogaeth preswylwyr lleol mae'r arwyddion yma bellach wedi'u gosod o gwmpas y gymuned.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, cynrychiolydd ardal Talybont ar Gyngor Gwynedd, "Does 'na ddim llawer o bethau sy'n fwy annymunol na chyrraedd yn ôl i'r tŷ neu'r car ar ôl bod am dro, a sylwi eich bod wedi sefyll mewn baw ci. Ond ar wahân i fod yn beth cas, mae hefyd yn peryglu iechyd y rhai sydd yn ei gyffwrdd - yn enwedig y plant yn ein cymunedau sydd yn aml yn chwarae yn y mannau ble gwelir y baw. Felly mae'r neges yn glir: Rhwch y baw yn y bin!"

Meddai Paula Sapsford, un o drigolion Talybont sydd yn berchennog ci, "Ni ddylai hyn fod yn broblem sy'n mynd ymlaen



Paula Sapsford, Talybont.



Y Cynghorydd Dafydd Meurig (chwith) a Jonathan Neale, Cyngor Gwynedd (dde);

yn ein cymunedau. Mae gan y rhan fwyaf o berchnogion cŵn erddi ac yn sicr ni fyddent yn gadael baw ci yn eu gerddi eu hunain, felly pam ei adael yn rhywle arall? Mae ein cymuned o berchnogion cŵn yn benderfynol o helpu mynd i'r afael â'r mater, ac rydym yn fwy nag hapus i gyfathrebu'r neges o pherchnogaeth gyfrifol i'n cydberchnogion cŵn."

Meddai Einir Young, un o drigolion Talybont ac sydd hefyd yn berchennog ci, "Mae'n syndod fod rhai perchnogion cŵn yn dal ddim yn deall fod peidio â chodi baw eich ci yn drosedd. Mae'n arferiad afiach tu hwnt ac mae perchnogion cyfrifol yn ddig fod y llond dwrn o bobl anghyfrifol yma'n rhoi enw drwg i bawb. Mae 'na finiau yn y pentref ac mae bagiau baw ci ar gael am ddim gan y Cyngor. Beth mwy sydd ei angen? Rhaid cytuno gyda'r poster - does dim esgus."

Meddai'r Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol: "Rwyf yn cefnogi trigolion Talybont gant y cant yn eu hymgyrch i waredu eu cymuned o faw cŵn. Mae'r ymgyrch bosteri hon yn boblogaidd iawn gyda chynghorwyr a phreswylwyr ac mae'n ffordd wych o atgoffa'r rhai sy'n gyfrifol y bydd dirwy o £100 os ydynt yn cael eu dal."

Yng Ngwynedd, mae'n drosedd i fynd a chŵn i ardaloedd chwarae penodedig ar gyfer plant, tir ysgol, caeau chwaraeon a rhai traethau (Ebrill-Medi) neu i adael eich ci i faeddu unrhyw ofod cyhoeddus. Gall troseddwy'r derbyn cosb benodedig o £100, a gallai methiant i dalu arwain at wysiad i'r cwrw a dirwy o hyd at £1,000.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, cysylltwch gyda'r tîm ar 01766 771000 neu e-bostio trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru


JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 4 Medi
os gwelwch yn dda.



Casglu a dosbarthu
nos Iau, 19 Medi
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.



Garddio

Dyma ein mis poethaf yn aml. Mae'n amser braf i eistedd yn yr ardd a'i mwynhau. Mae'n syniad da i gadw planhigion yn edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau oddi arnyn nhw. Mi fyddan nhw'n blodeuo am gyfnod hwy wrth wneud hynny.

Bydd angen sicrhau bod unrhyw blanhigion newydd yn cael digon o ddŵr – fe wnaiff dŵr golchi llestri yn iawn. Fel y nodwyd y mis diwethaf, mi fydd hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth yn talu ar ei ganfed.

Tasgau

- 1. Tacluswch farf yr hen ŵr [clematis] ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo.
- 2. Os oes gennych blanhigion mewn ystafell haul, gellir eu gosod yn yr awyr iach dros yr haf.
- 3. Dyfriwch y planhigion newydd ond byddwch yn ddarbodus efo'r dŵr.
- 4. Torrwch yr hen flodau oddi ar y planhigion er mwyn ymestyn y tymor blodeuo.
- 5. Os yw'n well gennych gael corbwmpen [courgette] torrwch y marro yn ifanc.
- 6. Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf.
- 7. Rhowch fwyd i'r lawnt yn arbennig os na roesoch fwyd iddi yn y gwanwyn.
- 8. Dyma amser da i roi llyfiad o baent i unrhyw waith coed. Sychu a Chadw Llysiau

Os ydych wedi tyfu mwy o lysiau nag sydd eu hangen, mae'n rhaid eu storio nhw'n ofalus.

Torrwch y coesau yn y bore ar ôl i'r gwllith ddiflannu a chyn bo'r haul yn grasboeth. Ni ddylech ddewis ond y dail sy'n berffaith. Mae rhai llysiau yn dirywio'n fuan iawn ar ôl eu casglu. Mae

hyn yn digwydd oherwydd bod y siwgr naturiol yn troi'n startsh. Ceisiwch gadw'r bwydydd sy'n rhyddhau ethylen - fala, afocado, bananas, melon, nectarin, gellyg, eirin gwlanog, eirin a thomatos -ar wahân i flodfresych, ysgewyll, bresych, ciwcymbr, pys a phupur.

Mae pob math o ffa yn rhewi'n dda; hefyd pys, blodfresych gaeaf, ysbigoglys (spinaets) a moron.

Mae'r rhan fwyaf o deulu'r bresych yn gallu aros yn y ddaear tan fod angen eu defnyddio.

Gellir claddu cnydau sydd â gwreiddiau ee moron neu fetys, mewn tywod. [Mae llawer i arddwr yn cadw'r rhain yn y ddaear tan ar ôl y Nadolig.]

Mae angen awyr yn yr oergell, felly peidiwch â'i gorlenwi. 3-5 gradd C (37-40 gradd F) yw'r tymheredd iawn.

Golchwch y llysiau cyn eu bwyta, ar ôl iddynt fod yn yr oergell.

Nid yw'n syniad da i gadw tomatos yn yr oergell; mae'n newid eu blas.

Oeddech chi'n gwybod?

Fod bresych yn cynnwys cymaint o galsiwm ag sydd mewn llaeth?

Os yw eich ffa dringo yn barod i'w bwyta, fe fyddant yn torri'n hawdd heb blygu.

Mae hadau pwmpen yn llawn o sinc ac yn dda i iechyd y brostad.

Mae banana yn dda i wrthweithio asid yn y stumog.

Mae mwy o fitamin C mewn llysiau gwyrdd tywyll nag sydd mewn rhai gwyrdd golau.

Mae oddeutu 200 o hadau mewn mefusen.

Mae llus yn eich helpu i weld yn y tywyllwch.



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddown@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)

- Gorffennaf 21: Parchg Marcus Robinson.
- Gorffennaf 28: Gweinidog.
- Awst 4, 11, 18: Uno yn Jerusalem, Bethesda. (10yb a 5yp).
- Awst 25: Gweinidog.
- Medi 1: Gweinidog (Cymun).
- Medi 8: Parchg John Lewis Jones.
- Medi 15: Parchg Gwyndaf Jones.

Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar 8 Medi am 10.30yb.
Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30.
Croeso cynnes i bawb.

Priodas

Ar 4 Mai, yn ardal y Bala, bu priodas un o’n haelodau, sef y Meddyg Cynon Tomos a Branwen. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi!

Bedydd

Ddydd Sul, 26 Mai, gyda’n Gweinidog yn gwasanaethu, bedyddiwyd Eleth Eurgain, merch Mared ac Alan Jones, Rhos y Nant. Nain Eleth oedd yn cyfeilio, sef Mrs Rhian Roberts. Yn dilyn y gwasanaeth aeth pawb i’r festri i fwynhau te prynhawn ardderchog!

Aelodau Newydd

Yn yr oedfa nos Sul, 2 Mehefin, gyda’n gweinidog yn arwain, braf oedd cael derbyn aelodau newydd, sef Non ac Awen Owen.

Angladd

Ar ddydd Gwener, 31 Mai, gyda’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu a Mrs. Helen Williams wrth yr organ, cynhaliwyd angladd y diweddar Mr Hefin Jones, Caer. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at deulu’r ddiweddar Mrs Phyllis Evans yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Gwenda Jones, Bron Arfon, a’r teulu, yn dilyn colli ei mam, Mrs Myfanwy Jones, Gwernydd.

Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Pysur

‘Roeddem ni’n brysur iawn yn ystod mis Mai yn yr Ysgol Sul a’r Clwb Dwylo Pysur. Cafodd Cymanfa’r Ysgolion Sul ei chynnal ym Methlehem, Talybont fore Sul, 19 Mai. ‘Roedd y capel bron yn llawn ac ‘roedd hi’n hyfryd i wrando ar gyfraniadau plant a phobl



Dyma Catrin, Mali, Cadi a Leusa.
Catrin gafodd y wobwr gyntaf!



Dyma rai o aelodau'r Clwb gyda'u lluniau!
Efa Glain gafodd y wobwr gyntaf, Efa Lois yn ail,
a Mari a Hannah yn rhannu'r drydedd wobwr.
Da iawn i bawb wnaeth gystadlu!

ifanc Bethlehem, Carmel ac Emaus yn ystod y Gymanfa. Cafodd pob un ohonynt nhw dystysgrif a gwobr ariannol am eu ffyddlondeb a’u gwaith yn yr Ysgol Sul ar hyd y flwyddyn. Diolch i’r plant, y rhieni a’r aelodau am ddod i gefnogi’r plant. Diolch i Mr Neville Hughes (Ysgrifennydd) a Mr Joe Hughes (Trysorydd) am eu gwaith di-flino dros y blynyddoedd.

‘Roedd Clwb Hanes Llanllechid wedi trefnu cystadleuaeth arlunio yn gysylltiedig ag unrhyw adeilad neu olygfa yn yr ardal, ac aeth y plant a’r bobl ifanc ati i baentio lluniau – Rynys, Hen Ysgol Rachub, Royal Oak, Capel Carmel a’r Ysgoldy, yn ogystal â thair lliwgar sydd ar allt Caellwynngrydd. ‘Roedd rhai yn paentio ar bapur ac eraill ar lechi. Diolch i’r Clwb Hanes am roi gwobrau hael iddynt.

Llongyfarchiadau hefyd i ddau o’n pobol ifanc:-
Dai Ifor ar ennill dwy wobwr (dau felt) mewn cystadleuaeth Karate.
Gwydion Rhys am ennill y wobwr gyntaf ar y cello (15 – 19 oed) yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd.

Hwyl Bore Sul

Cawsom fis Mehefin hapus yn yr Ysgol Sul. Cafodd y plant wahoddiad gan aelodau Ysgol Sul Bethlehem i ymuno â hwy mewn bore o hwyl gan fynd i’r cae chwarae cyn cael parti ardderchog yn y festri. Gorffen drwy ganu caneuon i gyfeiliant gitâr Mr Neville Hughes. Diolch yn fawr iawn! ‘Roedd hi’n braf cael croesawu Ela a’i chwaer, Lili, yn eu holau atom ni, ar ôl i Ela gael triniaeth yn ddiweddar mewn ysbyty yn yr Almaen.

Clwb Dwylo Pysur

Bu aelodau’r Clwb am dro o gwmpas Rachub gan sylwi ar y tai hynaf sydd ar y ffordd i fyni allt Caellwynngrydd. Mae rhai ohonynt wedi eu paentio yn lliwgar gyda photiau o flodau tlws y tu allan i’r drysau. Wedyn aethom yn ein holau i’r Ysgoldy i gael lluniaeth ysgafn cyn mynd adre’.
Mae’r Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Pysur wedi cau am wyliau’r haf rŵan.

Newyddion Eraill

Y mae Ron a Wendy Jones wedi symud i gyn chapel Salem ac felly croesawn deulu newydd i Bron Arfon, sef John, Elen a Sion Jones o Sir Fôn.
Syrthiodd coeden i gae chwarae Talysarn gan dynnu’r wal efo hi, gan achosi gwaith llafurus i berchennog y ty.
Roedd presenoldeb un o drigolion Hen Barc (Tom Williams) yn amlwg wrth i Côr y Penrhyn ganu yng ngwyl Glastonbury ar ddiwedd y mis.
Caewyd Lôn Bach Odro dros dro oherwydd yr adeiladu sy’n digwydd dros ffordd i Blas Ffrancon, gan achosi trafferth i drigolion oedd eisiau mynd o Rachub i Fethesda, neu fel arall.

Llongyfarchwn Idris Tomos o Gaerodwr (wyr Jean a Godfrey Northam) am gael tsysysgrif gan gymdeithas werdd. Bu Idris a saith o blant eraill yn hel ysbwriel ar y llwybr sy’n cysylltu ty Idris efo ei ysgol, wedi i Idris hel ysbwriel yn Rachub. Llenwyd 26 o sachiau efo’r ysbwriel!
Gresynwn fod rhai o drigolion Rachub Uchaf wedi bod yn parcio ar linellau melyn, gan achosi trafferth i eraill. Am nad yw’r injan dân yn medru dod i fyny’r Stryd Fawr oherwydd culni’r gwaelod, y mae’n bwysig sicrhau llwybr iddi yn Ffordd Tanybwllch, Tan y Garth a ger Stryd Bryn Owen.
Cydymdeimlwn â theulu Gwenda Jones, Ystad Bron Arfon oherwydd marwolaeth ei mam (Myfanwy Jones o Gerlan). Cydymdeimlwn hefyd â theulu Dilwyn Williams o 1 Yr Hen Ysgol am iddo farw yn ei dy.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o’r clwb prynhawn Mercher, Mehefin 5ed. Croesawodd y llywydd pawb i’r cyfarfod. Yn anffodus ‘roedd dipyn o’r aelodau yn wael a methu bod yn bresennol.
Yna cyflwynwyd Mrs Sian Kent a chawsom hanes y mudiad ‘Soroptomists’ ganddi. Mae Sian yn perthyn i cangen Fangor. Mudiad i ferched yw hwn a gafodd ei sefydlu yng Nghalifornia. Mae 75 mil o aelodau yn y mudiad. Ers talwm ‘roedd rhaid cael gwahoddiad i ymuno. ‘Roeddent yn ferched uchel yn eu gyrfa. Erbyn hyn mae pethau wedi newid a does dim rhaid cael gwahoddiad. Maent yn gwneud llawer o waith da fel clirio sbwriel, cael stondinau i gael pres a hel i’r di

gartref. Hefyd gwnaent taith nodedig i hel arian at achosion da. Maent yn gweithio yn galed iawn. Cafwyd prynhawn diddorol iawn a dysgu llawer am y mudiad.

Paratowyd y te gan Vera a Medi. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Rees Williams ac fe enillwyd gan Vera.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 10fed.

Ti a Fi Rachub a Llanllechid

Un bore Dydd Gwener sych aethom am dro nodedig ar hyd y Lôn Las at Tregarth. Codwyd £158 a diolch o galon i bawb am ein noddi. Cynhelir Ti a Fi yn y Clwb Criced a Bowlio Bethesda bob bore Dydd Gwener. Rydym yn chwilio am Arweinydd newydd i redeg Ti a Fi erbyn Mis Medi neu yn anffodus bydd yn dod i ben. Mi fysa hyn yn bechod mawr ar ôl iddo fod yn rhan o'r gymdeithas a bywydau lot o blant bach a rhieni yr ardal. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ann Burford 07876267119.



Priodas


Dymuna Mr a Mrs Stephen Williams (Hen Barc gynt) ddiolch o galon i'r criw ddaeth i ddathlu eu priodas yn ddiweddar, ac i bawb am eu anrhegion a'u geiriau caredig.



Y Dyddiadur toriadau (11)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garededd Wen, Llanfairpwll.)



Yn y bennod hon ceir hanes datblygu darn o dir a elwid yn ‘Gors Tŷ Groes’ fel lle chwarae i blant ardal Pwllgwyngyll. Datblygwyd y safle fel chwaraele i'r plant bach, meddai'r adroddiad, er mwyn “eu denu o beryglon y ffordd fawr, lle chwyrnella moduron o bob math.”

Mae'n rhaid felly fod traffig wedi dechrau bod yn broblem ar yr A5 drwy Lanfairpwll hyd yn oed mor gynnar â 1933.

Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i fynegi syndod “bod cyn lleied o ddamweiniau yn digwydd ym mhentrefi Môn.” Mae'n debyg bod un wedi digwydd yn y Gaerwen ryw wythnos ynghynt, lle'r “anafwyd un geneth fach yn dost.” Noda'r gohebydd ei fod wedi sylwi ar blant yn chwarae ar ben rhyw “foncan” yng Ngwalchmai ac eraill yn blant hŷn yn chwarae mewn cae yn y ‘Valley.’” Âr adroddiad yn ei flaen i ddweud mai nodweddiadol o bentrefi Lloegr oedd hynny ond “ym Môn grefyddol y ffordd fawr oedd magwrfa ein Bradmans a'n Larwoods ni,” gan gyfeirio at ddau o gricedwyr mwyaf enwog Lloegr yn y cyfnod hwnnw. Mae'r gohebydd yn dweud ymhellach, “a ninnau wedi ein dysgu i ysgwyd ein pennau mewn anobaith dygn wrth feddwl am y Sais anwar.”

Yna, aiff y gohebydd ymlaen i fynegi'r gobaith y gwelir plant pentref Pwllgwyngyll, “yn ymbleseru yn eu

chwaraele newydd yn ddiogel o dwrf y moduron.” Canmolir un “**bonheddwr haelionus**” a addawodd roi “swings i'r plant ieuengaf” yno ac â'r gohebydd ymlaen i foesoli ynghylch “rialiti crefydd y dyngarwr hwnnw sy'n rhoi gwers foesol bendant i'r cybydd crintachlyd crefyddol a dry draw fel y Lefiad gynt gyda'i ochenaid laes.” Nodir bod y rhan agosaf at y Neuadd Goffa wedi ei neilltuo fel “*bowling green*” a “*tennis*.” Mae'r adroddiad yn dweud mai clwb tennis yr ardal enillodd gwpan y sir y flwyddyn gynt a'u bod yn haeddu cefnogaeth “*goreuon gwlad am eu gwrhydri*.”

Wedyn eir ati i ganmol y Cyngor Dosbarth a'r Cyngor Plwyf i'r cymylau am eu gweledigaeth. Dywedir, “*Peidio â gwario y buasai'r dyn diwelediad, peidio rhoi gwaith i neb, peidio popeth ac ymroi i rwgnach a'i gyrru'n waeth. Nid felly'r Cyngor hwn, credant fod y wawr ar dorri a chredant yng ngeiriau'r gŵr a fu'n llanw'r gadair i'r Cyngor gydag urddas am flynyddoedd maith yn ein plith.*”

Eithr os du yw, na thristawn;
Mewn da bryd, cyfyd cyfiawn,
I'th arwain o gaeth oror,
I rydd gwasanaeth yr Iôr.
Dwyn o aflan wasanaeth
Gan Famon feibion dy faeth,
E dyr gwawr, wlad ragorwen,
Na wyla o Walia Wen.

Caerhun a Glasinfryn



Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Idwal a Gwyneth Jones ar ddathlu eu priodas aur. Efo'r ddau yn y llun y mae Margaret, chwaer Gwyneth, yn forwyn briodas, a Robin, brawd Idwal, yn was priodas.

Cylch Glasinfryn

“Sgyrsiau mewn lliw” oedd testun Sophia Ingham a ddaeth i’n diddori i’r Cylch ar 12 Gorffennaf. Dangosodd amrywiaeth o’i gwaith celf a chreffft gan ddefnyddio deunydd a lliwiau sawl cyfrwng. Cafwyd cyfarfod anffurfiol diddorol. Pawb yn ymlacio a sgwrsio, yn gofyn cwestiynau ac yn rhyfeddu at waith Sophia yn creu siapiau a darluniau gan ddefnyddio edefion lliwgar. Dysgodd Sophia ei chreffft yn ifanc iawn gan efelychu llawer ar ei nain a’i mam. Y nain yn greadigol fel gwehydd a’i mam yn dilyn ffasiwn. Diolchwyd iddi gan Jocelyn a mwynhawyd paned a chacen siocled i ddathlu pen-blwydd arbennig Kath gan Glenys a Mair. Pen-blwydd hapus iawn i ti, Kath! Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Iau 11 Gorffennaf. Byddwn yn ymweld â Distyllfa Abergwyngregyn wedi pryd yng nghaffi’r Hen Felin.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Allan ac Eleri, Bwthyn

y Waen, Waen Wen, ar achlysur eu priodas yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy ar 28 Mehefin. Pob hapusrwydd i chwi.

Arddangosfa Arlunio

Y mae Grŵp Arlunio Glasinfryn yn cynnal arddangosfa yn y Ganolfan 14-17 Awst. Y mae’r Grŵp yn bodoli ers 1996 ac ar draws y blynyddoedd wedi cynnal arddangosfeydd ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog, Castell Penrhyn, Llanberis, Biwmares a Chaernarfon. Dyma gyfle i weld gwaith arlunio gwyh yr aelodau sydd yn cyfarfod yn wythnosol. Bydd yr arddangosfa yn agored o 10yb – 4yp (mynediad am ddim) a bydd rhai lluniau ar werth.

Bingo Bach Glasinfryn

Daeth nifer dda i’r Bingo ar 21 Mehefin, a chafwyd noson hwyliog gan godi £175 tuag at Glefyd Parkinson. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn Ysbyty Gwynedd er budd cleifion yn dioddef o’r clefyd. Diolch i Tanya am alw, a phob dymuniad da iddi hi am wellhad buan yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ychydig ddyddiau wedyn. Cynhelir y Bingo nesaf ar 26 Gorffennaf gyda’r elw yn mynd tuag at y Ganolfan.

Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan

Cynhelir cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar 22 Gorffennaf, am 7yh. Cyfarfod agored yw hwn i bawb – dowch draw i gefnogi!

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yn ystod mis Mai bu aelodau’r gangen yn ymgychu ar gyfer etholiad Ewrop trwy deliffonio, cnocio drysau a dosrannu taflenni. Fel o’r blaen, enillodd y Plaid Lafur un o seddau Cymru.

Ar ddechrau mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Arfon i ymdrin â materion gweinyddol. Yna, paratowyd ar gyfer y sioe amaethyddol leol ond yn anffodus cafodd y sioe ei chanslo oherwydd y tywydd gwael.

Wedyn, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru gyda Hannah Blyddyn (Aelod Cynulliad Cymru dros Delyn), Ian Lucas (Aelod Seneddol Wrecsam) a Donna Hutton (aelod o Bwyllgor Gwaith Cymru) yn areithio, ateb cwestiynau a gwrandao ar farn.

Yng nghanol y mis cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen (gyda’r un prif swyddogion yn cael eu hethol) a chynnig yn cael ei anfon i Blaid Lafur Arfon am ddiogelwch oergelloedd/rhewgelloedd. Yna, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon i drafod cynigion ar gyfer cynhadledd Plaid Lafur Prydain ac i wrando ar Donna Hutton (swyddog yr undeb Unison) yn tynnu sylw at rai o faterion a oedd yn effeithio ar weithwyr yng Ngogledd Cymru e.e. y nifer sylweddol o weithwyr Cyngor Gwynedd sydd ar gontractau dim oriau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r gangen am 8.30 y.h. yng Nghanolfan Cefnfaes ar yr ail nos Fercher o Fedi (yr 11eg), gyda phwnc trafod yn yr ail hanner.

Llythyrau

Annwyl Ddarllenwyr,
Urdd Gobaith Cymru 1922-2022
Cyrol yn casglu’r archif o atgofion a lluniau - oes gennych chi gyfraniad?
Mae cyrol helaeth, yn cynnwys llawer o luniau ac atgofion, ar y gweill i ddathlu canrif Urdd Gobaith Cymru 1922-2022. Croesewir pob atgof/llun/archif at y prosiect hwn – yn rhodd i’r Urdd neu yn fenthyciad. Mae swyddfeydd gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd yn barod i’w derbyn (neu drwy ebost archif@urdd.org).

Eisoes mae trysorau o flynyddoedd cynnar y mudiad wedi dod i’r fei. Ond peidiwch ag anghofio bod angen hanes y blynyddoedd diweddaraf yn ogystal! Edrychwn ymlaen at gael rhannu’r cyfan.

Yn gywir,
Myrddin ap Dafydd (golygydd y gyfrol)

Llun dros Ganrif Oed



Diolch i Mr Wynne Roberts o Dregarth am anfon y llun isod i'r Llais. Dyma ychydig o sylwadau ganddo wrth anfon y llun atom:

“Dyma’r llun o Hogia Bethesda yn Aberystwyth amser y Rhyfel Byd Cyntaf – tua 1915, â’r afr gyda hwy! Y mae Frank Jones, tad Megan, fy niweddar wraig, yr ail o’r chwith yn y rhes ganol, ac efallai Robin John, Braichmelyn, yr ochr dde iddi. Yr

oedd llawer yn mynd i Litherland, Lerpwl, cyn eu symud i Aberystwyth i’w hyfforddi cyn mynd allan i Ffrainc neu’r Dwyrain Canol.

Efallai fod gan rai teuluoedd hen luniau o’r hogia’ yn dal i fod, ac o bosib yn adnabod rhai ohonynt!

O.N. Nid yw hwn yn llun swyddogol, gan nad ydynt wedi eu gwisgo yn iawn.”

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni
(01248) 723106

Porthaethwy
(01248) 719517

Benllech
(01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda’r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Arddangosfa gan Arlunydd Lleol

Bydd arddangosfa newydd o beintiadau a cherfluniau Gareth Griffith, yr artist dylanwadol o Fynydd Llandygái, yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Teitl yr arddangosfa newydd hon o’i waith yw ‘Trelar’, a bydd yn agor ar 21 Gorffennaf ac yn parhau tan 7 Medi.

Mae Gareth bellach yn 79 oed, ac mor brysur ag erioed. Yn ystod ei yrfa bu’n heddwas ac yn athro celf. Mae’n perthyn i dair cenhedlaeth o dalent gelfyddydol - roedd ei dad, Robin Griffith, yn gwneud lluniau i gylchgronau ‘Cymru’r Plant’, ‘Hwyl’ a ‘Mynd’. Cydnabu Gareth y cymorth a’r gefnogaeth a gafodd gan ei dad pan gychwynnodd ar ei yrfa ym maes celf. Yn fwy diweddar, mae yntau wedi arddangos ei waith ar y cyd gyda’i feibion, Dafydd,



Morgan ac Ioan.

Yn yr arddangosfa ‘Trelar’, mae’r cerfluniau a’r peintiadau (olew ar ganfas) yn ystyried y cysylltiadau rhwng lle ac amser ac yn cwestiynu materion cymdeithasol. Mae’r llyfdd yn cynnwys Lerpwl, ble astudiodd yn y 1960au; Jamaica, ble bu’n byw gyda’i deulu ifanc yn y 1970au cynnar, a Mynydd Llandygái lle mae wedi byw a gweithio ers dros ddeugain mlynedd. Bu’n athro ac Arolygydd Celf

mewn ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac Ynys Môn cyn iddo benderfynu ymddeol yn gynnar a chanolbwyntio ar ei waith peintio a cherflunio yn y stiwdio wrth ei gartref yn 19 Llwybr Main.

Bydd yr arddangosfa ‘Trelar’ yn teithio ymlaen o Aberystwyth i Oriel Tŷ Pawb yn Wrecsam ac yna i Oriel Davies yn y Drenewydd tan y flwyddyn newydd. Yn ogystal â hyn, mae Gareth yn arddangos cyfres o weithiau eraill yn Oriel

Myrddin, Caerfyrddin yn gynnar yn 2020.

Yn 2017, prynwyd pedwar darn o waith Gareth fel rhan o gasgliad y genedl gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Rheolir y casgliad gan Ganolfan Y Southbank yn Llundain ar ran y Cyngor Celfyddydau. Roedd hyn yn anrhydedd mawr iddo gan fod gweithiau yn y casgliadau yn cael eu rhoi ar fenthyg i orielau ar draws gwledydd Prydain a’r byd.

Mae hefyd wedi cydweithio gyda Chwmni Cygnet yn y Felin Fawr, Bethesda i greu cyfres o gelfi o’r plastig du caled y maent yn ei ddefnyddio. Cafodd y gwaith ar y prosiect hwn ei roi ar ffilm gan y gwneuthurwr ffilm, Pete Telfer o ‘Culture Colony’, y wefan sy’n llwyfan i roi sylw a chyhoeddusrwydd i arlunwyr a gwaith celf.

Mae’n dda clywed bod gwaith arlunydd lleol yn cael ei gydnabod yn eang, a bod cyfle yn awr i weld ei waith mewn cyfres o arddangosfeydd ar draws Cymru.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

SIOP
OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau,
Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra,
CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon,
Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro,
Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau
Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau
(e.e. Barn, Mellten, Bore Da,
Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt
ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),
Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd
Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

CHWILAIR

Beic

Yn y chwilair y mis yma mae DEUDDEG PETH YN YMWNEUD Â BEIC PADLO i'w ganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW erbyn AWST 31. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

A	A	W	F	H	C	R	I	E	J	L	C	M	B	C	V	B	H	X	J
U	S	I	V	S	L	O	H	E	P	I	M	G	A	V	H	M	D	W	H
U	Z	M	X	B	O	V	L	A	D	M	D	D	N	A	P	A	U	Q	U
S	O	F	R	R	C	P	Y	W	Q	Z	W	G	R	H	C	U	M	W	N
O	Y	R	I	E	H	A	L	S	Y	Y	Z	P	U	T	F	D	X	U	P
W	R	H	C	C	Q	H	W	A	N	N	E	H	O	Y	E	E	G	E	O
M	H	E	P	T	T	C	B	Y	M	B	I	C	U	U	J	P	L	T	M
I	V	V	D	C	B	B	R	F	R	P	F	O	O	G	J	V	I	I	R
R	X	I	M	H	T	R	T	O	S	K	O	P	N	W	R	C	M	K	C
B	O	R	C	X	U	V	R	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z
H	B	C	W	O	S	C	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	B	W
T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z
Q	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L
S	N	T	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U
R	L	E	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I
A	W	S	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G
I	D	H	B	S	S	I	U	F	F	R	A	M	R	O	L	X	A	G	X
E	R	A	E	R	E	K	K	D	A	N	T	O	G	D	W	B	M	B	J
T	R	F	U	E	C	Y	R	N	B	E	I	C	A	N	K	B	Z	E	B
B	C	U	Y	G	C	F	T	Z	M	A	P	P	U	X	N	T	Z	T	S

Faint ohonoch sydd yn reidio beic y dyddiau yma? Wel os mai “nac ydwyf” yw’r ateb, dyma gyfle i chi fynd yn ôl i’ch plentynod, a cheisio cofio’r gwahanol ddarnau sydd yn mynd i wneud beic cyfan. Cofiwch bod dau air yn gwneud rhai o’r atebion. Pob hwyl.
Dyma atebion Mehefin :- Ail Lyfr y Cronicl; Amos; Deuteronomium; Esther; Galarnad; Hosea; Jona; Llyfr Esra; Pregethwr; Sachareia; Salmau; Solomon.
Dyma enwau’r rhai a gafodd yr ateb

cywir:- Mair Jones, Bethesda; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Elizabeth Buckley, Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Bullock, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwenda Bowen, Gerlan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Marilyn Jones, Bethesda; Carys Parry, Glanogwen. **Enillydd Mehefin oedd:-** Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn LL77 7SJ.

Ysgol Llanllechid

Cyngerdd Côr Meibion y Penrhyn a Chôr Ysgol Llanllechid

Cynhaliwyd cyngerdd arbennig iawn yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen ar Fehefin 26. Bu’n gyfle i Ysgol Llanllechid rannu llwyfan hefo Côr Meibion y Penrhyn, a chafwyd gwledd o ganu. Braint ac anrhydedd oedd cael canu hefo Côr y Penrhyn, a bydd ein disgyblion ni yn cofio’r profiad am weddill eu hoes!

Roedd hwn yn gyngerdd oedd wedi cael ei drefnu i godi arian ar gyfer plant yr ysgol sy’n derbyn triniaethau meddygol. Cyfeiriwn yn benodol at Ela Lois, sydd yn ferch fach hynod o ddewr, ac sydd wedi derbyn triniaeth gymhleth yn yr Almaen, a dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Ela.

Yn ystod y noswaith, cafwyd amrywiaeth o eitemau gan gynnwys: Y Gan Actol – Caellwngrydd, Gruffydd Beech – Cadw Mi Gei (ail wobr yn yr eisteddfod Sir); Harry Bale – Unawd Corn; Cerddorfa Ysgol Llanllechid – Tango a Cha Cha Cha; Gwenno Beech – Llefaru Unigol; Y Gornel Dywyll (Gwobr Gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd); Parti Llefaru – Parti Llefaru gorau’r Byd; Ensemble Lleisiol – Mil Harddach Wyt; Côr Cerdd Dant: Un Blaned Gron; Adran yr Urdd Dyffryn Ogwen – Can y Sipsi a Cherdd Dant – Eira (gwobr Gyntaf yn y Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd). Wedi hyn perfformiodd côr Ysgol Llanllechid amrywiaeth eang o ganeuon gan gynnwys caneuon traddodiadol Cymreig. Cafwyd caneuon grymus gan Gôr Meibion y Penrhyn, ac ymunodd y ddau gôr ar ddiwedd y noson i ganu Calon Lân a Byd o Heddwch. Daeth y noson i ben gyda’r anthem yn atseinio dros y fro!

Diolch i Mrs Delyth Humphreys am ei holl egni a’i hymroddiad wrth arwain y ddau gôr a diolch i ffrind arbennig Ysgol Llanllechid, sef Sioned Webb, am ddod atom i gyfeilio mor ddawnus. Diolchwn hefyd i Arwel Davies am ei arweinaid a’i gydweithrediad ac i aelodau Côr Meibion y Penrhyn am gytuno i rannu llwyfan hefo ni. Diolchwn hefyd i Fran Davies, cyfeilyddes Côr Meibion y Penrhyn. Diolch i Mr Dylan Davies, prifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, am gael defnyddio Ysgol



Dyffryn Ogwen ar gyfer y noswaith. Diolch i chi’r rhieni a chyfeillion Ysgol Llanllechid am eich holl gefnogaeth a’ch cymorth parod. A diolch yn fawr iawn i’r canlynol am y gwobrau raffl:

- Venue Cymru
- Y Llechen
- Tŷ Golchi
- Garej Ffrydlas
- All Sewn Up
- Clustogau gan Janice Williams
- Taleb Ciwticwls gan Ffion Jones
- Cwrw Ogwen
- Ceri Isac – Hamper
- Ceri Evans - Potel Gin

Y Groes Goch Brydeinig

Diolch i Mr Dafydd Beech am ddod at ein Blwyddyn 6, sef dosbarth Mr Stephen Jones, i ddysgu sgiliau bywyd hanfodol sef: Cymorth Cyntaf. Llauer iawn o ddiolch i Mr Beech am fod mor barod i helpu’r ysgol mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Beicio Noddedig

Diolch i’r Cyfeillion am drefnu noswaith hyfryd yn y Clwb Rygbi ar nos Wener, Mehefin 28. Y sialens oedd beicio o’r clwb Rygbi i Dregarth ac yn ôl, a llwyddwyd i wneud hynny ar noson hyfryd o haf. Diolch i bawb am fod mor barod i gymryd rhan. Bu’r cyfan yn llwyddiant ysgubol!

Cyfarfod Iolo Williams

Bu disgyblion Ysgol Llanllechid yn bresennol pan gafodd canllaw newydd i ddysgu yn yr awyr agored ei lansiog gan Iolo Williams ddydd Gwener, Mehefin 21, yng Nghanolfan Mynydda Plas y Brenin. Dywedodd Iolo Williams, “Dwi’n falch iawn o fod yn rhan o’r lansiad yma heddiw i annog mwy o blant a phobl ifanc i fwynhau dysgu yn yr awyr agored. Mi rydan ni yn clywed gymaint heddiw am broblemau iechyd meddwl, gordewdra a diffyg ymarfer corff yn gyffredinol ac mae gan yr awyr agored ran bwysig iawn i’w chwarae yn tacio’r problemau yma. Doeddwn i ddim yn mwynhau addysg ffurfiol, ac mae ’na amryw yr un peth â fi, ond mi oeddwn i wrth fy modd yn mynd allan efo taid a fy mam am dro yn dysgu am fyd natur. Dwi’n gweld yr adnodd yma fel hwb i fwy o blant ac oedolion wneud yr un peth,

gan ddysgu yn yr awyr agored.” Treuliodd ein disgyblion ni amser bendigedig yn ymwneud â gwahanol weithgareddau yn y coedlannau tng nghwmni Iolo Williams.

Sioe Dyffryn Ogwen

Er gwaetha’r tywydd garw ar y diwrnod hwn, cafwyd cyfle i feirniadu’r cynnyrch Celf a Chrefft. Daeth llu o wobrau i’r ysgol eto eleni – da iawn chi blant os am eich gwaith caled a llongyfrachiadau i chi ar eich llwyddiant! Ewch i Ysgollanllechid.org i wled y lluniau yn y tab Newyddion Mis Mehefin.

Yr Wyddfa

Yn ôl ein harfer, dringodd disgyblion Blwyddyn 6, def dosbarth Mr Stephen Jones, i gopa’r Wyddfa! Camp a hanner! A braf oedd cael cyfle i chwifio baner Cymru ar y copa! Diolch i mr Stephen Jones o gwmni anelu am ein harwain.

Eisteddfod Llangollen

Aeth dosbarth Mrs Wilson o’r Cyfnod Sylfaen draw i Eisteddfod Llangollen i fwynhau lliw a bwrlwm y gwahanol ddiwylliannau ar draws y byd. Agoriad llygad yn wir!

Yr Wybrnant

Hefyd, aeth rhai o blant y Cyfnod Sylfaen draw i’r Wybrnant, ar ôl bod yn dysgu am yr Esgob William Morgan. Roedd hwn yn brofiad arbennig iawn iddynt gan fod Llion Williams yr actor yno yn chwarae rôl yr Esgob yn ei ffordd ddihaful ei hun, ac yn aros amdanynt! Daeth y dyddiad 1588 yn fyw, ynghyd â champwaith ymdrech a chyflawniad yr Esgob.

Cynhadledd Ieuenctid ar y Newid Hinsawdd

Aeth rhai o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Brifysgol Bangor i gymryd rhan mewn cynhadledd o dan arweiniad Dr Yueng- Djern, Dr Einir Young a Dr Anne- Marrie Smith. Bu’n gyfle gwych i’n disgyblion ddeall mwy am gyflwr ein planed a newid hinsawdd. Mae llawer mwy o straeon ar ein gwefan! Dymuniadau gorau i un ac oll am haf hirfelyn tesog!





DOSBARTH IDWAL
Trip lan y môr
Lan y môr oedd thema dosbarth Idwal yn y cyfnod sylfaen felly aethom i Llanfairfechan i adeiladu cestyll tywod, creu collage a chael llawr o hwyl a phicnic yn yr awyr iach. Diwrnod i'w gofio !

Sali Mali yn 50oed !!
Gan fod Sali Mali yn 50 mlwydd oed eleni , roedd rhaid dathlu a chael parti. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwisgo fel cymeriad o bentre bach neu ddillad oren. Cawsom hufen iâ, cacen a dawnsio yn y parti. Penblwydd hapus Sali Mali!

Dawnsio Creadigol
Hoffem ddiolch i Rebekah, mam Amabel am gynnal gweithdy dawnsio creadigol a balle gyda phlant dosbarth Idwal o dan y thema lan y môr a môr ladron. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr iawn!

DOSBARTH TRYFAN
Cwm Idwal
Braf oedd cael mynd gyda blwyddyn 3 a 4 ar daith i Cwm Idwal. Roedd yn braf profi hyfrydwch yr ardal leol a chael picnic. Diolch i gwmni Anelu am ein hebrwng ar y daith.

DOSBARTH OGWEN
Llangrannog
Aeth criw o ddosbarth Ogwen ar ymweliad preswyl i Llangrannog eleni. Cafodd y plant gyfleoedd i wneud pob math o weithgareddau megis, sgio a marchogaeth. Dyma ni yn cael hwyl yn y mwd! Pawb wedi mwynhau gan gynnwys Miss Davies a Miss Emily!



Plas Menai
Roedd mwy o antur yn nghroen dosbarth Ogwen wrth dreulio diwrnod ym Mhlas Menai yn gwneud gweithgareddau ar y dŵr.

Mabolgampau'r Ysgol
Cynhalwyd mabolgampau llwyddiannus iawn gyda'r plant i gyd yn cymeryd rhan.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")




Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909



Pencampwyr Dominos 2018-19

Bydd adroddiad ar Noson y Rowndiau Terfynol (2 Gorffennaf) efo lluniau'r enillwyr yn ymddangos yn rhifyn Medi.

